



GRŴP COLEGAU NPTC

Adroddiad Blynyddol

ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023

Personél Rheoli Allweddol, Bwrdd y Llywodraethwyr a Chynghorwyr Proffesiynol

Personél rheoli allweddol

Diffinnir personél rheoli allweddol fel aelodau o Dîm Arwain y Grŵp ac fe'u cynrychiolir gan y canlynol yn 2022/23:

Mark Dacey Prif Weithredwr; Swyddog Cyfrifyddu

Catherine Lewis, Dirprwy Brif Weithredwr ac Is-Bennaeth

Kathryn Holley, Is-bennaeth: Gwasanaethau Ariannol

Eleanor Glew, Is-bennaeth: Gwasanaethau Gweithredol

Kelly Fountain, Is-bennaeth: Gwasanaethau Academaidd

Gemma Charnock, Is-Bennaeth: Cysylltiadau Allanol ac Ysgrifennydd y Coleg

Bwrdd y Llywodraethwyr

Rhoddir rhestr lawn o'r Llywodraethwyr ar dudalen 19 y datganiadau ariannol hyn.

Cynghorwyr proffesiynol

Archwilwyr datganiadau ariannol annibynnol:

PricewaterhouseCoopers LLP Un
Ffordd y Brenin
Caerdydd
CF10 3PW

Archwilwyr mewnol:

RSM Risk Assurance Services LLP
Ystafell 205, Tŷ Regus Rhodfa
Malthouse
Parc Busnes Porth Caerdydd
Caerdydd
CF23 8RU

Bancwyr:

Grŵp Bancio Lloyds Tŷ
St William Teras
Tresillian Caerdydd
CF10 5BH

Santander
Tŷ St William 9
Heol y Frenhines
Caerdydd
CF10 2UD

CYNNWYS

Rhif tudalen

Adroddiad y Corff Llywodraethu	4
Datganiad Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol	18
Datganiad y Corff Llywodraethu ar reoleidd-dra, priodoldeb a chydymffurfiaeth y Grŵp â thelerau ac amodau cyllido y Corff Ariannu	24
Datganiad o Gyfrifoldebau Aelodau'r Gorfforaeth	25
Adroddiad Archwilwyr Annibynnol i Gorfforaeth Coleg Castell-nedd Port Talbot	26
Datganiadau Cyfunol a'r Coleg o Incwm Cynhwysfawr	29
Datganiadau Cyfunol a'r Coleg o Newidiadau mewn Arian Wrth Gefn	30
Mantolenni Cyfunol a'r Coleg ar 31 Gorffennaf 2023	31
Datganiad Cyfunol o'r Llif Arian	32
Nodiadau i'r Cyfrifon	33

Adroddiad y Corff Llywodraethu

NATUR, AMCANION A STRATEGAETHAU:

Mae'r corff llywodraethu yn cyflwyno ei adroddiad blynyddol ynghyd â'r datganiadau ariannol cyfunol archwiledig ac adroddiad yr archwilwyr ar gyfer Grŵp Colegau NPTC ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023.

Statws cyfreithiol

Sefydlwyd y Gorfforaeth o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 er mwyn cynnal Coleg Castell-nedd Port Talbot. Mae'r Coleg yn elusen eithriedig at ddibenion Rhan 3 o Ddeddf Elusennau 2011.

Cenhadaeth

Mae datganiad cenhadaeth y Grŵp fel a ganlyn:

'Ysbrydoli dysgu, cyfoethogi bywydau, cyflawni llwyddiant'

Arwyddair:

"Mwy nag addysg yn unig"

Ar gyfer y Grŵp, mae'r arwyddair yn cyfleu'r hyn y mae myfyrwyr yn ei gael fel pecyn cyfan yn y Coleg. Bydd myfyrwyr yn cael addysg a hyfforddiant rhagorol, ond bydd ganddynt hefyd fynediad i'r holl weithgareddau allgyrsiol, y chwaraeon, y clybiau, y gerddoriaeth a'r dawns a llawer mwy.

Budd i'r Cyhoedd

Mae'r Coleg yn elusen eithriedig o dan Ran 3 o Ddeddf Elusennau 2011 ac mae'n cael ei rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru fel Prif Reolydd pob Corfforaeth AB yng Nghymru. Mae aelodau'r Corff Llywodraethu, sy'n ymddiriedolwyr yn elusen, wedi'u datgelu ar dudalen 19.

Wrth osod ac adolygu amcanion strategol y Grŵp, mae'r Corff Llywodraethu wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus ac yn arbennig i'w ganllawiau atodol ar hybu addysg. Mae'r canllaw yn nodi'r gofyniad bod yn rhaid i bob sefydliad sy'n dymuno cael eu cydnabod fel elusen ddangos, yn benodol, bod eu nodau er budd y cyhoedd.

Wrth gyflawni ei genhadaeth, mae'r Grŵp yn darparu'r buddion cyhoeddus adnabyddadwy canlynol trwy hybu addysg:

- Addysgu o ansawdd uchel
- Ehangu cyfranogiad a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol.
- Hanes cyflogaeth rhagorol i fyfyrwyr.
- Systemau cefnogi cryf i fyfyrwyr.
- Cysylltiadau â chyflogwyr, diwydiant a masnach.

Ymdrinnir â darparu budd i'r cyhoedd drwy gydol yr Adroddiad y Corff Llywodraethu hwn.

Gweithredu'r Cynllun Strategol

Ym mis Medi 2019, mabwysiadodd y Grŵp gynllun strategol yn ffurfiol ar gyfer y cyfnod 1 Awst 2019 i 31 Gorffennaf 2023.

Mae cynllun strategol 2019-2023 yn cynnwys cynlluniau eiddo ac ariannol. Mae'r Gorfforaeth yn monitro perfformiad y Grŵp yn erbyn y cynlluniau hyn.

Dangosir Nodau Strategol y Grŵp ar gyfer y cyfnod 2019-23 **isod:**



Mae cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn yr amcanion hyn, er bod pandemig Covid-19 wedi effeithio ar yr amserlenni, gyda'r amcanion sy'n ymwneud â thechnoleg yn benodol yn cael eu datblygu'n gyflymach nag a gynlluniwyd yn wreiddiol.

Nodau Strategol Ariannol

Nodau strategol ariannol y Grŵp yw:

- Sicrhau hyfywedd ariannol hirdymor gyda gwargedion cynaliadwy sy'n ddigonol ar gyfer anghenion y Grŵp
- Cynllunio ariannol effeithiol a chwbl gydlynol.
- Rheolaeth a rheoli ariannol effeithiol tra'n darparu gwasanaethau craidd yn effeithiol.
- Sicrhau gwerth am arian yn yr holl weithgarwch.
- Targedu buddsoddiad cyfalaf sy'n cefnogi holl strategaethau'r Grŵp.
- Rheoli mewnlol a rheolaeth risg effeithiol.

Cytunwyd ar gyfres o ddangosyddion perfformiad, a ddangosir isod, i fonitro gweithrediad llwyddiannus y nodau:

DANGOSYDDION PERFFORMIAD

	2022/23	Targed	Cymhariaeth â'r Flwyddyn Flaenorol	2020/21 Cymharydd Cenedlaethol ¹
CANLYNIADAU				
<u>LLWYDDIANT</u>				
CYFRADD CWBLHAU*	88%	93%	87%	94%
CYFRADD CYRHAEDDIAD*	92%	92%	86%	82%
CYFRADD CWBLHAU'N LLWYDDIANNUS*	81%	86%	75%	77%
CYFRADD LWYDDO SAFON UWCH	98.1%	100%	98.4%	100%
PRESENOLDEB MYFYRWYR	89%	90%	88.9%	
<u>NIFEROEDD</u>				
YMRESTRIADAU AB ALI (LAPS)	3,018	3,899	3,339	
YMRESTRU AU (Rha ac ALI)	535	625	509	
CYLLID				
INCWM LIC/CYFANSWM INCWM	81.84%	<70%	82.53%	85.62%
COSTAU STAFF/CYFANSWM INCWM ²	57.90%	<70%	56.36%	61.76%
DIFFYG/CYFANSWM INCWM	-5.72%		-3.98%	-0.26%
EBITDA/CYFANSWM INCWM ⁴	0.54%	>5%	1.38%	7.24%
CYMHAREB BRESENNOL	0.70	>1.2	1.04	1.73
GERIO ³	5.7%		9.62%	17.43%
BALANS ARIAN PAROD	£3.9m		£10.6m	£12.5M
DIWRNODAU ARIAN PAROD ⁴	18	> 45 diwrno d	51	89 diwrnod
BUDDSODDIAD CYFALAF/INCWM	5.98%	5%	10.14%	7.81%
POBL				
CWYNIION A DDERBYNIWYD	66		80	
NIFEROEDD STAFF	1,038		1,019	
YSTADEGAU ABSENOLDEB SALWCH	4.87%		4.41%	

¹ Mae cymharyddion cenedlaethol ar gyfer canlyniadau ar gyfer 2020/21, gan nad yw cymharyddion

Grŵp Colegau NPTC

wedi'u cyhoeddi ers hynny. ² Yn cynnwys incwm Academi Sgiliau Cymru (SAW)

³ Heb gynnwys cronfa bensiwn wrth gefn

⁴ Nid yw gwariant yn cynnwys llog, dibrisiant, amorteiddiad a chostau pensiwn nad ydynt yn arian parod

CANLYNIADAU

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu data cyfartalog cenedlaethol ar gyfer rhaglenni darparwyr unigol, ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-22. Ni ddarperir data wedi'i ddilysu sy'n dangos cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant cyffredinol y Sefydliad. Adroddodd y LLWR blaenorol gyfraddau llwyddiant cyffredinol ar gyfer y Coleg, Meysydd Sector Pwnc (SSA), ac adroddiadau Deilliannau Dysgwyr yn galluogi Colegau i ddatblygu DPA ar gyfer sefydliad cyfan. Mae'r data a ddangosir uchod felly'n seiliedig ar feincnodi mewnol, y mae ei ffigurau'n deillio o wybodaeth am gymwysterau a chyrrff dyfarnu yn hytrach na data wedi'i ddilysu gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r cyfraddau llwyddo Safon Uwch cyffredinol ar gyfer 22-23 yn 98.1%, sy'n uwch na chanlyniad Cymru gyfan o 97.5% a chanlyniad y DU gyfan o 97.3%. Ni ddefnyddiwyd unrhyw raddau a bennwyd gan y ganolfan i bennu'r graddau terfynol a ddyfarnwyd yn ystod 22-23. Dosbarthwyd gwybodaeth uwch i bob sefydliad gan sefydliadau dyfarnu mewn rhai pynciau, gan gydnabod effaith barhaus COVID-19 ar gyflawniad myfyrwyr. 2023 yw'r ail flwyddyn y cynhaliwyd arholiadau 'yn bersonol' ar gyfer rhaglenni UG, Safon Uwch a galwedigaethol. Ystyrir 2023 yn flwyddyn bontio i adlewyrchu'r cyfnod adfer parhaus o COVID.

Roedd presenoldeb myfyrwyr ar gyfer y prif gymwysterau ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd yn 89%, sy'n cyfateb i'r flwyddyn flaenorol. Bu mwy o ffocws ar wella lefelau presenoldeb a chadw ar draws pob ysgol academiaidd. Gosodwyd y nod i bob ysgol academiaidd gyflawni isafswm presenoldeb o 90% ar gyfer pob cwrs yn eu hysgol gan fwrdd y Gorfforaeth ym mis Tachwedd 2022.

Gostyngodd recriwtio AB Amser Llawn yng Ngrŵp NPTC yn 2022/23, roedd hyn oherwydd effaith barhaus y pandemig. Roedd graddau a bennwyd gan ganolfannau yn golygu bod myfyrwyr yn aros mewn darpariaeth 6ed dosbarth neu fel arall yn ceisio prentisiaethau neu gyflogaeth. Oherwydd 'cyfnodau clo' roedd ein digwyddiadau recriwtio wyneb yn wyneb a chyfleoedd ymgysylltu ag ysgolion yn gyfyngedig.

Ar gyfer 2022/23 yng Nghymru bu gostyngiad o tua 10% yn nifer y myfyrwyr AU a gofrestrodd yn SABau Cymru, gan gyfrannu at ostyngiad o 25% yn nifer y myfyrwyr AU a gofrestrwyd dros y tair blynedd diwethaf. Datblygwyd ymgyrch codi ymwybyddiaeth AU fewnol wedi'i thargedu, a ategwyd gan fwsariau ychwanegol ar gyfer dilyniant o lefel 3 i AU yn NPTC, a chynhaliwyd cyfres o gyflwyniadau dilyniant a gweithgareddau marchnata. Arweiniodd hyn at gynydd o 5.1% mewn cofrestrïadau AU yn 2022/23 o gymharu â 2021/22.

POBL

Nifer y cwynion cyffredinol ar gyfer 22/23 yw 66 sy'n dangos gostyngiad o 18% ers y llynedd (80). O'r cwynion hynny aeth cyfanswm o 7 ymlaen i Gam 2, o gymharu ag 8 yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r data'n awgrymu bod mwyafrif y cwynion yn parhau i gael eu trin yn llwyddiannus gan y Grŵp yng Ngham 1, gan ddileu'r angen i achwynwyr uwchgyfeirio eu cwyn i Gam 2. Caiff y cwynion eu dadansoddi i nodi unrhyw dueddiadau neu faterion systemig a chânt eu hadrodd ym mhob Cyfarfod Grŵp Safonau a Pherfformiad at ddibenion monitro. Cyflwynir adroddiad cwynion blynyddol hefyd i Lywodraethwyr y Coleg i'w hadolygu.

Mae Grŵp Colegau NPTC wedi gweld cynnydd yn nifer y staff cyffredinol o 19 i 1,038.

Mae absenoldeb salwch staff wedi cynyddu o 4.41% i 4.87% dros y 12 mis diwethaf. Gostyngodd absenoldeb tymor byr o 1.47% yn 2021/22 i 1.13% yn 2022/23. Yr absenoldeb hirdymor ar gyfer 2022/23 oedd 3.74%, cynnydd o 2.94% yn 2021/22.

SEFYLLFA ARIANNOL**Canlyniadau Ariannol**

Mae'r Grŵp yn nodi diffyg cyn treth yn y flwyddyn o £4,053,000 (diffyg 2021/22 oedd £2,772,000).

	2023 £'000	2022 £'000
Diffyg ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023	(4,053)	(2,772)
Ychwanegu yn ôl:		
Llog	309	742
Dibrisiant ac Amorteiddiad	3,234	3,001
Costau Pensiwn Anariannol	890	3,670
EBITA a addaswyd ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf	<u>380</u>	<u>4,641</u>

Mae gan y Grŵp asedau net, gan gynnwys y gwarged pensiwn, o £43,580,000 (2021/22: £28,285,000 o asedau net) a balansau arian parod a chyfwerth ag arian parod o £3,876,000 (2021/22: £10,636,000). Mae'r Grŵp yn dymuno cronni arian wrth gefn a balansau arian parod er mwyn creu cronfeydd ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol.

Mae'r Grŵp yn dibynnu'n sylweddol ar Lywodraeth Cymru fel ei brif ffynhonnell gyllid, yn bennaf o grantiau rheolaidd. Yn 2022/23 darparodd y cyrff cyllido AB 81.84% o gyfanswm incwm y Grŵp, gostyngiad o 82.5% yn y flwyddyn flaenorol. Yn ogystal, bu gostyngiad parhaus hefyd yn lefel yr incwm masnachol ar draws y Grŵp.

Mae addasiadau cost y cynllun pensiwn llywodraeth leol a grybwyllwyd uchod wedi dod o gyfrifiadau'r actiwari yn seiliedig ar brisiad pensiynau teirblwydd mis Mawrth 2022, wedi'i dreiglo ymlaen i 31 Gorffennaf 2023. Cyfran y Coleg o warged cyffredinol y cynllun yw £13,370,000. Mae hyn yn gyson â Cholegau eraill gan fod yr adferiad economaidd o ergydion mwyaf y pandemig Covid-19 wedi arwain at well prisiau gan actiwariad y cynllun. Er bod y rhan fwyaf o'r addasiad yn cael ei wneud yn syth i'r cronfeydd wrth gefn, mae £1.02 miliwn (2021/22 - £4.22 miliwn) o'r "symudiad nad yw'n arian parod" yn cael yr effaith o gynyddu costau staff yr adroddir amdanynt a llog a lleihau EBITDA.

Mae gan y Grŵp bedwar is-gwmni masnachu, sef Language Specialists (International) Limited, Parc Llandarcy Cyfyngedig, Mentrau Cymunedol Cwm Gwendraeth Cyfyngedig a Green Inc (EU) Limited. Y prif weithgareddau yn y drefn honno yw hyfforddiant iaith Saesneg, canolfan chwaraeon a phwll nofio a dysgu seiliedig ar waith ar gyfer y ddau arall. Mae unrhyw wargedion cymwys a gynhyrchir gan yr is-gwmnïau yn cael eu rhoi i'r Coleg o dan reolau cymorth rhodd. Yn y flwyddyn gyfredol, cyfraniad yr is-gwmnïau i ganlyniad y Grŵp, cyn amorteiddio ewyllys da, oedd diffyg o £1,018,000 cyn treth (2021/22: gwarged o £44,000 cyn treth).

Mae LSI Portsmouth yn Ysgol Ieithoedd Ryngwladol ac mae'r ffiniau wedi bod ar gau yn ystod COVID. Rydym hefyd wedi gweld nifer o faterion negyddol yn ymwneud â Brexit a chyfeillgarwch y DU fel gwlad i ymweld â hi. Yr ydym yn gweled gwelliant yn hyn ar hyn o bryd. Dros gyfnod COVID ac yn ddiweddarach rydym wedi buddsoddi £1.3m yn LSI Portsmouth i'w cynorthwyo gyda'r colledion y maent wedi'u gwneud dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf. Mae'r buddsoddiad hwn wedi'i roi a'i sicrhau fel tâl ar Adeilad LSI. Yn ddiweddar rydym wedi cael cynnig a derbyn £3.5m ar gyfer yr adeilad hwn felly nid oes unrhyw risg ynghlwm wrth y tâl hwn i'r coleg. Gostyngodd incwm LSI o fan uchel o £5.5m cyn Covid i £653,023 yn ystod 2021, gan godi wedyn i £1,872,207 yn 2022, ac yn 2023 i £2,574,691. Rhagwelir y bydd incwm yn uwch na £3m yn 23/24 gydag enillion positif.

Ar ôl diwedd y flwyddyn, cwblhawyd cytundeb prynu cyfranddaliadau ar 28^{ain} Mawrth 2024 gyda Green Inc (EU) Limited yn cael ei werthu am £1, gan leihau ein rhwymedigaeth gan £270,000.

Polisiau ac amcanion y trysorlys

Rheolaeth y trysorlys yw rheoli llif arian y Grŵp, ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol ar y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posibl sy'n gyson â'r risgiau hynny.

Awdurdodir benthycia tymor byr at ddibenion refeniw dros dro gan y Swyddog Cyfrifyddu. Mae angen awdurdodiad y Gorfforaeth ar gyfer pob benthyciad arall.

Llif arian a hylifedd

Ar £(3.4) miliwn (2022 £6.3 miliwn), bu gostyngiad sylweddol yn y llif arian net o weithgareddau gweithredu o gymharu â gwerth y flwyddyn flaenorol, yn bennaf oherwydd y cynnydd yn y diffyg masnachu cyn treth a'r symudiad mewn cyfalaf gweithio a'r gwarged arian parod is a gynhyrchwyd.

Ar 31 Gorffennaf 2023, torrwyd un o'r cyfamodau banc, ac felly dangoswyd bod y benthyciad cysylltiedig sy'n weddill i gyd yn dod yn ddyledus mewn llai na blwyddyn. Ceir rhagor o wybodaeth yn y nodyn busnes gweithredol ar dudalen 14.

DATBLYGIAD A PHERFFORMIAD PRESENNOL AC YN Y DYFODOL

Dathlu Llwyddiant

Yn 2022/23 mae'r Coleg wedi cyflawni gweithgarwch a gynhyrchodd £31,440,000 mewn cyllid prif ddyraniad y corff cyllido ar gyfer addysg bellach (2021/22 - £28,305,000).

Mae deg myfyriwr o Grŵp Colegau NPTC wedi'u cyhoeddi ymhlith y 442 sydd wedi cyrraedd Rowndiau Terfynol Cenedlaethol WorldSkills UK a gynhelir ym mis Tachwedd 2023 mewn colegau, darparwyr hyfforddiant annibynnol a phrifysgolion ar draws Manceinion Fwyaf. Bydd y rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol yn cystadlu mewn 51 sgil, yn amrywio o adeiladwaith digidol, iechyd a gofal cymdeithasol a gweithgynhyrchu ychwanegion i saernïo metelau a seiberddiogelwch.

Enillodd Lily Owen, myfyrwraig yng Ngholeg y Drenwydd, Wobr Addysg Bellach Cymdeithas Sir Drefaldwyn 2023. Mae Cymdeithas Sir Drefaldwyn yn sefydliad elusennol sydd wedi'i leoli yn Llundain y mae gan ei haelodau ddiddordeb parhaus yn Sir Drefaldwyn yng Nghymru. Mae'r sefydliad wedi cefnogi ac annog myfyrwyr yn y Coleg ers tro drwy roi cyfle i gael eu dewis ar gyfer eu gwobr Addysg Bellach.

Mae Grŵp Colegau NPTC a Cadwch Gymru'n Daclus wedi dod at ei gilydd ac yn cydweithio i helpu i warchod yr amgylchedd i'r cenedlaethau i ddod. Mae'r bartneriaeth waith bellach yn swyddogol yn dilyn lansiad a gyda'i gilydd mae'r ddau fudiad yn gobeithio adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes a denu gwirfoddolwyr i helpu'r achos. Mae'r Coleg a Cadwch Gymru'n Daclus wedi bod yn cydweithio ar fentrau sy'n cynnig cyfleoedd gwirfoddoli ac yn annog cyfranogiad cymunedol.

Mae Grŵp Colegau NPTC yn un o bedwar coleg AB ynghyd â Phrifysgol Cymru a lansiodd rwydwaith newydd o Golegau a ddynodwyd yn Sefydliadau Technegol Prifysgol Cymru, o dan bwerau'r Brifysgol i fynd i'r afael â diffyg sgiliau uwch ym marchnad lafur Cymru. Mae'r lansiad yn dilyn dadansoddiad manwl o wybodaeth ddiweddar am y farchnad lafur sy'n datgelu ei fod 40 y cant yn llai gweithredol na chyfartaledd y DU gyda chyflogau canolrif a hysbysebwr yng Nghymru 13 y cant yn is na chyfartaledd y DU.

Aeth Gwobr y Gyfraith Grŵp Colegau NPTC am Gyflawniad Eithriadol, a noddir gan Jennifer Melly Law i'r myfyrwyr cyfraith a berfformiodd orau, Alys Cooke ac Alex Thomas. Cyflwynwyd eu tystysgrifau a'u tlysau i'r ddau yn ystod y seremoni wobrwyo a'r dathliad yn swyddfeydd Jennifer Melly Law, sydd wedi'u lleoli yng Nghastell-nedd.

Mae Grŵp Colegau NPTC yn cydweithio â Grŵp Llandrillo Menai i gyflwyno Rhaglen Hyfforddiant Cerbydau Trydan newydd sbon i Goleg Peirianeg a Thechnoleg Geethanjali yn India. Mae'r prosiect hwn wedi'i gefnogi gan Gymru Fyd-eang ac mae wedi rhoi'r cyfle i ddau arbenigwr Cerbydau Trydan, un o Grŵp NPTC ac un o Grŵp Llandrillo Menai, ymweld ag India i gyflwyno'r Rhaglen Hyfforddiant Cerbydau Trydan hon.

Mae Grŵp Colegau NPTC wedi'i restru fel y lle gorau i astudio yng Nghymru. Mae'r Coleg ar y brig am foddhad myfyrwyr gan ei fod ar frig y tabl sy'n cynnwys prifysgolion a cholegau o bob rhan o'r DU. Gofynnwyd i fyfyrwyr roi sgôr am foddhad myfyrwyr mewn perthynas â'u haddysg uwch neu gwrs gradd fel rhan o'r Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Myfyrwyr (NSS).

Grŵp Colegau NPTC

Mae myfyrwyr yng Ngrŵp Colegau NPTC yn dathlu ar ôl cyflawni canlyniadau arbennig yn eu cymwysterau Safon Uwch a galwedigaethol. Mae dosbarth 2023 wedi cyflawni cyfradd lwyddo gyffredinol o bron i 99 y cant. Mae graddau A* – B yn debyg i'r llynedd, gyda mwy na hanner y myfyrwyr yn cyflawni'r graddau hynny. Llwyddodd bron i draean y myfyrwyr ennill graddau A*- A, a chafodd dros dri chwarter raddau A* - C. I'r myfyrwyr a ddilynodd y Rhaglen Dawnus a Thalentog (GATE) roedd rhagor o newyddion da, gydag 84 y cant yn cyflawni graddau A* - A a 100 y cant yn cyflawni graddau A* - B. Rhagorodd y myfyrwyr oedd yn sefyll eu cymwysterau galwedigaethol hefyd, gyda 70 myfyriwr yn ennill graddau rhagoriaeth, a 24 o fyfyrwyr yn cyflawni'r proffil graddau uchaf posibl sef rhagoriaeth serenog driphlyg sy'n cyfateb i dair A* ar Safon Uwch. At hynny, cyflawnodd 376 o ddysgwyr y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch yn llwyddiannus gyda chyfradd lwyddo arbennig o 100 y cant, gyda 58 y cant yn cyflawni graddau A* i C.

Cymerodd grŵp o fyfyrwyr yn Academi Chwaraeon Llandarcy ran mewn her dygnwch i godi arian y mae mawr ei angen ar gyfer elusen iechyd meddwl leol. Cafodd myfyrwyr BTEC Lefel 2 Hyfforddi Chwaraeon y dasg o drefnu digwyddiad fel rhan o'u gwaith cwrs a phenderfynwyd defnyddio'u talent chwaraeon yn effeithiol, gan droi her y Môr i'r Copa ar ei phen a threfnu her Y Copa i'r Môr i godi arian ar gyfer Hwb@TheYnys, elusen iechyd meddwl sydd wedi'i lleoli ym Mhort Talbot.

Cymerodd dau ar bymtheg o fyfyrwyr o Goleg Castell-nedd ran mewn prosiect adfer rhyfeddol, gan roi gwedd newydd i hen efail ym Mharc Gwledig Craig Gwladus. Digwyddodd y gwaith dros leoliad 10 diwrnod ar y safle a bu'n gyfle prin i ymwneud â deunyddiau traddodiadol, tra'n gweithio ar brosiect o bwysigrwydd hanesyddol ac archeolegol arwyddocaol, dan arweiniad arbenigwyr yn eu meysydd.

Mae'r cyn-fyfyriwr Harddwch Cymhwysol Lucy Lewis o Goleg y Drenewydd wedi cael ei chydnabod am ei thalentau anhygoel drwy gyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Rhagoriaeth VTCT 2023. Gan dathlu pen-blwydd VTCT yn 60, nod y gwobrau yw cydnabod ein myfyrwyr a'n partneriaid sy'n mynd yr ail filltir i ddangos rhagoriaeth mewn addysg alwedigaethol.

Cafodd adrannau Amaethyddiaeth, Garddwriaeth ac Arlwygo Coleg y Drenewydd ddiwrnod cyffrous yn Nigwyddiad Defaid Cymreig y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol NSA ym Mhowys. Yn ennill y Stodin Masnach Awyr Agored, daeth dau fyfyriwr amaethyddol hefyd yn gydradd chweched yng nghystadleuaeth Bugail y Genhedlaeth Nesaf. Cymerodd pump o fyfyrwyr amaethyddiaeth y Coleg ran yng nghystadleuaeth Bugail y Genhedlaeth Nesaf sy'n profi sgiliau mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys trin cerbydau pob tir (ATV), cneifio defaid, rheoli praidd a gofal, trin a thechnegau defaid.

Mae'n anrhydedd i Grŵp Colegau NPTC dderbyn Gwobr Arian Rhagoriaeth 2023 am ein rhaglenni Datblygiad Proffesiynol Athrawon Rhyngwladol yn Ffederasiwn Colegau a Cholegau Polytechnig y Byd (WFCEP) ym Montréal. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn cydnabod cyflawniadau Grŵp Colegau NPTC a hefyd yn arddangos yr ymrwymiad rhagorol i ddarparu addysg o ansawdd a gwella'r profiad dysgu cyffredinol a safonau sgiliau yn fyd-eang.

Cynhaliwyd y gwobrau Chwaraeon blynyddol hir-ddisgwyliedig yng Ngrŵp Colegau NPTC yn dilyn seibiant o ddwy flynedd oherwydd y pandemig. Daeth dwsinau o fyfyrwyr i'r digwyddiad a gynhaliwyd a chyflwynwyd gwobrau iddynt a oedd yn cynnwys cydnabyddiaeth am anrhydeddau rhyngwladol a sirol, cynrychioli'r Coleg, clod i'r chwaraewyr a oedd wedi gwella fwyaf; mabolgampwr/wraig y flwyddyn a thystysgrifau cyrhaeddiad i rai o'r myfyrwyr chwaraeon elitaidd hefyd.

Agorodd Y Gaer, amgueddfa a llyfrgell nodedig Aberhonddu, ei drysau i ddarparu gyflogeion gofal y dyfodol, gyda dosbarthiadau'r Coleg yn symud i'r gofod. Mae gwersi Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant wedi bod yn symud o Goleg Bannau Brycheiniog, Penlan, i Y Gaer fel ffordd o wneud addysg yn fwy gweladwy a hygyrch i'r gymuned.

Yn ddiweddar, llwyddodd Andy Davies, darlithydd Coleg y Drenewydd, i gymryd rhan yn ras hiraf ei yrfa hyd yn hyn gan ennill y trydydd safle mewn cyflawniad anhygoel, gan sicrhau ei le i gymryd rhan yn ras anoddaf y byd, yr Ultra Trail du Mont Blanc (UTMB) i'w chynnal yn ddiweddarach eleni. Mae Andy yn ddarlithydd Chwaraeon yng Ngholeg y Drenewydd ac wedi cael llwyddiant mewn nifer o rasys gan orffen fel Deiliad Record Prydain ym Marathon Seville 2022. Disgrifir yr Istria 100 a gynhelir yng Nghroatia fel y "ras llwybr mwyaf chwedlonol yn y byd". Gorffennodd Andrew y ras y tu ôl i'r enillydd, Stian Angermund, a'r athletwr yn yr ail safle, Andrzej Witek yn y ras 69km (43 milltir) a oedd yn cynnwys uchder o bron i 2,500m.

Grŵp Colegau NPTC

Bydd Ysgol y Bannau a Choleg Bannau Brycheiniog ym Mhenlan, Aberhonddu yn rhannu man dysgu awyr agored newydd. Oherwydd partneriaeth rhwng y ddau wasanaeth cyhoeddus, bydd 'Ysgol Goedwig' yn ofod dysgu i fyfyrwyr pedair oed a hŷn. Credir y bydd cynyddu dysgu yn yr awyr agored i bob myfyriwr o fudd i'w llesiant, creadigrwydd, a gwybodaeth am yr argyfwng hinsawdd a natur.

Ymwelodd Mike Gershon, sy'n addysgwr o fri rhyngwladol gyda dros 40 o lyfrau i'w enw ar addysgu, dysgu ac addysg, gan gynnwys nifer o werthwyr gorau â'r Coleg. Mae wedi ysgrifennu dros 90 o ganllawiau sy'n ymdrin â gwahanol agweddau ar arfer ystafell ddosbarth ac mae ei waith wedi'i gyfieithu i'r Iseldireg, Hebraeg, Arabeg a Tsieinëeg. Mae ar hyn o bryd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddeunyddiau hyfforddi athrawon ar gyfer pob ysgol yng Nghymru.

Cafodd myfyrwyr o Goleg Castell-nedd ddosbarth meistr anhygoel gyda'r gantores/gyfansoddwraig Bronwen Lewis. Roedd cyfle i'r myfyrwyr â Bronwen am ei gyrfa hyd yn hyn, holi cwestiynau am y broses o gyfansoddi caneuon a hyd yn oed rhoi cynnig ar ysgrifennu a pherfformio eu 'Hanthem Iechyd a Llesiant' eu hunain.

Mae Grŵp Colegau NPTC, Cymru-DU a Dirprwy Uchel Gomisiwn Prydain, Kolkata a Chyngor Talaith Addysg Dechnegol a Galwedigaethol a Datblygu Sgiliau Gorllewin Bengal, wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth ac wedi trefnu'r gweithdy cyntaf erioed ar adeiladu seilwaith gwefru cerbydau trydan yn India. Cefnogodd Swyddfa Dramor a Chymanwlad a Datblygu Prydain y rhaglen.

Yn ddiweddar fe wnaeth Oisín Morris, Myfyriwr Celf a Dylunio yng Ngholeg y Drenewydd ymgymryd â'r her i greu gweithiau celf a fyddai'n bodloni gofynion gosodwaith ffuglen wyddonol ar gyfer digwyddiad preifat. Mae'n ofynnol i fyfyrwyr sy'n astudio'r cwrs Lefel 3 Celf a Dylunio gynhyrchu darn o waith ar gyfer briff byw.

Mae Myfyriwr Arlwygo Coleg y Drenewydd Jazmin Williams yn profi ei hun yn bobydd medrus gyda dawn addurno cacennau. Daeth Jazmin, o Aberriw, yn ail yng nghystadleuaeth CFFI Cymru gyfan CAFC a gynhaliwyd yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd yn y categori 'Addurno boncyff siocled Nadolig'.

Mae enw da o'r radd flaenaf am gyflwyno hyfforddiant o'r radd flaenaf mewn sgiliau plastro wedi'i gadarnhau wrth i Grŵp Colegau NPTC gael ei enwi'n Goleg/Darparwr Hyfforddiant y Flwyddyn yng Ngwobrau Hyfforddiant 2022. Mae'r gwobrau, a gynhaliwyd yn Llundain, yn cydnabod cyflawniad a rhagoriaeth mewn plastro a systemau mewnol ac maent yn gydweithrediad rhwng y Sector Gorffeniadau a Gwaith Mewnol (FIS) a Chwmni Anrhydeddus y Plastrwyr. Yn ogystal â chael clod fel Coleg/Darparwr Hyfforddiant y Flwyddyn, daeth y prentis Jonathan Donaldson i frig y dosbarth a chafodd ei enwi'n Brentis y Flwyddyn (plastro). Symudodd Jonathan ymlaen trwy'r Coleg o Lefel un i Lefel tri, gan ehangu ei sgiliau a'i dechnegau. Cymhwysodd hefyd ar gyfer rowndiau terfynol UK SkillBuild ac mae'n parhau ar hyd ei lwybr i lwyddiant.

Mae cyn-fyfyriwr Coleg Castell-nedd, Nathan Davies, yn ffynnu fel gwneuthurwr ffilmiau a ffotograffydd wrth iddo deithio i bedwar ban byd. Dychwelodd y cyn-fyfyriwr Safon Uwch Astudiaethau Ffilm, Ffotograffiaeth, Seicoleg a Saesneg i'r coleg i siarad â rhai o'n myfyrwyr Celfyddydau Creadigol, Gweledol a Pherfformio am ei waith. Mae Nathan yn gweithio fel gwneuthurwr ffilmiau a ffotograffydd llawrydd ac yn gweithio gyda rhai o athletwyr mwyaf y byd mewn chwaraeon fel UFC.

Mae Grŵp Colegau NPTC yn falch o fod yr unig Goleg yng Nghymru sydd ag Achrediad Rhuban Gwyn. Mae Rhuban Gwyn yn ymgrych fyd-eang ac yn brif elusen y DU sy'n ymgysylltu dynion a bechgyn i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched.

Gwisgodd mwy na 300 o raddedigion o Grŵp Colegau NPTC eu capiau a'u gynau mewn seremoni arbennig lle ymunodd y cymrodyr anrhydeddus James Hook a Dr Gaynor Richards MBE DL â nhw. Hon oedd y seremoni raddio ffurfiol gyntaf a gynhaliwyd mewn tair blynedd, pan gafodd y carfannau o fyfyrwyr o 2020-2022 sylw o'r diwedd o flaen darlithwyr, teulu, ffrindiau a phwysigion cyn dod yn aelodau newydd o Gyn-fyfyrywyr y Coleg. Roedd y seremoni, a gynhaliwyd yn Arena Abertawe, yn adlewyrchu'r partneriaethau sydd gan y Coleg gyda Phrifysgol De Cymru, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Glyndŵr sy'n caniatáu iddo gynnig rhaglenni lefel prifysgol gan gynnwys tystysgrifau cenedlaethol uwch, diplomâu cenedlaethol uwch, graddau sylfaen, graddau a chymwysterau a dderbynnir yn rhyngwladol.

Grŵp Colegau NPTC

Enillodd y Prentis o Goleg y Drenewydd, Theo Buttery, Wobr Prentisiaeth Cwmni Anrhydeddus Lifrai Cymru 2022. Cyflwynwyd y wobwr i Theo gan Stuart Castledine, Meistr Cwmni Anrhydeddus Lifrai Cymru 2022/3 mewn seremoni yng Ngholeg y Drenewydd. Roedd Keith Shankland, Gŵr Lifrai o Gwmni Anrhydeddus Lifrai Cymru hefyd yn bresennol ynghyd â chyflogwr Theo ORE Brickwork a'i deulu a'i ffrindiau.

Llwyddodd myfyrwyr dawnus o Academi Gerdd Coleg Castell-nedd i gyrraedd y nodau cywir a dyfarnwyd Gradd 8 Theatr Gerdd iddynt gyda Theilyngdod neu Ragoriaeth yn dilyn clyweliadau gyda Theatr Gerdd Ieuencid Prydain (BYMT). Mae'r cymhwyster yn gymhwyster cydnabyddedig Trinity Laban (Conservatoire Cerdd a Dawns Trinity Laban) ond nid yw'r gwaith caled yn dod i ben yno. Maen nhw i gyd wedi bod yn rhan o brosiectau amrywiol ac yn parhau i berfformio er pleser cynulleidfaoedd tra'n parhau i ddysgu gan rai o'r goreuon yn y diwydiant.

Croesawodd Grŵp Colegau NPTC sêr gemau Cymru, John Jackson AKA Slayer a Lois Samuel AKA Kitsch i agor ystafell Esports newydd sbon Coleg Castell-nedd yn ffurfiol. Ymunodd Maer Castell-nedd Port Talbot, y Cyng. Robert Wood a'r Faeres Mrs Sylvia John, yn ogystal â Phrif Swyddog Gweithredol Esports Cymru John Jackson a Llysgennad Benywaidd Esports Cymru Lois Samuel â staff a myfyrwyr y coleg.

Enillodd staff Meithrinfa Ddydd Lilliput ddwy wobwr yng Ngwobrau Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar Castell-nedd Port Talbot. Enillodd y feithrinfa wobwr Llywodraeth Cymru, Pencampwr Lleoliad y Cynnig Gofal Plant a Gweithwyr Allweddol Covid. Cynhaliwyd y seremoni wobrwyo yn Theatr y Dywysoges Frenhinol, Port Talbot ac enwebwyd y feithrinfa hefyd ar gyfer gwobrau'r Tîm Arbennig a'r Rheolwr. Roedd yn anrhydedd i'r tîm ym Meithrinfa Ddydd Lilliput fod yn rhan o Seremoni Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar cyntaf Castell-nedd Port Talbot a gobeithio y daw'r digwyddiad yn un blynyddol. Mae'r gwobrau yn gydnabyddiaeth i'r feithrinfa a gwaith caled ac ymroddiad y staff trwy gyfnod heriol ac anodd dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae Grŵp Colegau NPTC wedi'i ganmol ar ôl ennill y dyfarniad uchaf sydd ar gael ar gyfer ei gyrsiau lefel prifysgol yn dilyn adolygiad gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA). Daeth y panel i'r casgliad bod gan y Coleg 'drefniadau cadarn ar waith ar gyfer sicrhau safonau academiaidd, rheoli ansawdd academiaidd, ac ar gyfer gwella profiad y myfyriwr'. Canmolwyd y Coleg am ei gyflawniadau mewn sawl maes, gan gynnwys cymorth i fyfyrwyr a'r defnydd o dechnoleg ddigidol.

Perfformiad talu

Mae Deddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 1998, yn ei gwneud yn ofynnol i golegau, yn absenoldeb cytundeb i'r gwrthwyneb, wneud taliadau i gyflenwyr o fewn 30 diwrnod i naill ai darparu nwyddau neu wasanaethau neu y dyddiad y derbyniwyd yr anfoneb. Y targed a osodwyd gan y Trysorlys ar gyfer talu cyflenwyr o fewn 30 diwrnod yw 95 y cant. Yn ystod y cyfnod cyfrifyddu 1 Awst 2022 i 31 Gorffennaf 2023, talodd y Coleg 80 y cant (2021/22 80 y cant) o'i gyflenwyr o fewn 30 diwrnod. Ni chodwyd unrhyw daliadau llog ar y Coleg mewn perthynas â thaliadau hwyr am y cyfnod hwn.

Rhagolygon y dyfodol

Mae cynnydd nifer o brosiectau cyfalaf sy'n cael eu cynnal gan Grŵp Colegau NPTC ar wahanol gamau yn eu datblygiad. Esbonnir y rhain yn fanylach isod:

- Mae'r campws newydd arfaethedig ym Mhort Talbot yn cael ei ddatblygu fel rhan o ddatblygiad Glannau'r Harbwr a chynllun adfywio'r dref. Rydym eisoes wedi gweld y ffordd ddsbarthu ymylol gwerth £110m yn bwydo i mewn i'r safle, yn uniongyrchol o'r M4, a gorsaf Parkway a chanolbwynt trafniadaeth newydd trawiadol gwerth £10m. Mae'r cynllun wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru fel rhan o fand "B" ac mae'n cael ei ariannu fel rhan o'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM). Mae gan y cynllun MIM gyfradd ymyrraeth gychwynnol o 81%/19%, fodd bynnag gyda Llywodraeth Cymru yn cytuno i dalu am uwchraddio i Sero Carbon a chytundeb ar drin TAW, mae'r gyfradd ymyrraeth yn agosach at 85%/15%. Cymeradwywyd yr achos busnes mewnol a'r Cais Prosiect Newydd (NPR) gan Fwrdd y Gorfforaeth ym mis Ebrill 2022 a'u cyflwyno i WEPCo gydag amcangyfrif o gost adeiladu o £65m. Mae hyn eisoes wedi codi i £73m wrth i gostau deunyddiau a llafur gynyddu. Derbyniwyd yr NPR gan WEPCo ym mis Mehefin 2022. Mae'r rhaglen hirdymor

bresennol yn amcangyfrif y bydd wedi'i chwblhau yng nghanol 2026, fodd bynnag mae oedi mewn perthynas â gwaith sydd ei angen y tu allan i linell goch y safle yn gohirio cynnydd y prosiect hwn. Mae'r Awdurdod Lleol am i'r Coleg dalu am y gwaith y tu allan i linell goch y safle. Ni fyddem yn cytuno â'r cynnig hwn.

- Er mwyn gwella perthnasedd y cwricwlwm a gynigir yn y Coleg yn Aberhonddu i anghenion y farchnad lafur, ac i wneud y cwricwlwm yn fwy hygyrch i fyfyrwyr, cyflwynwyd cynlluniau i Lywodraeth Cymru i gael cyllid i symud o'r un safle presennol i gyfleuster aml-safle sydd wedi'i leoli'n bennaf yng nghanol y dref, gan gynnig cyfleusterau hyfforddi o'r radd flaenaf ac annog mwy o ymgysylltu â'r gymuned leol. Y 'Coleg o Fewn Y Ganolfan Gymunedol' (CWTC) yw'r hen Ganolfan Groeso yn y prif faes parcio yng nghanol Aberhonddu. Gwnaethom uwchraddio'r adeilad hwn ac fe'i agorwyd ym mis Ionawr 2020 ac mae wedi'i ddefnyddio ar gyfer ein rhaglenni Prifysgol ers hynny. Prynodd y Coleg hefyd Watton Mount, adeilad rhestredig gradd II a cherbyty a Llyfrgell Ship Street yng nghanol y dref. Mae gwaith cyfalaf ar yr adeiladau hyn wedi dechrau i'w trawsnewid yn llety o ansawdd uchel i'r Coleg.
- Rydym yn ystyried pob un o'n dulliau gweithredu gyda'r cyfyngiadau ariannol yr ydym yn eu hwynebu yn sgil y gostyngiad arfaethedig mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru yn 23/24 a 24/25. Rydym wedi cymryd £2m o'n cyllideb gyflogau ar gyfer 23/24 a 24/25 drwy weithredu rhewi staff ers Ionawr 2023. Fodd bynnag, i fod yn glir nad yw hyn yn cynnwys staff rheng flaen. Er enghraifft, os oes angen Athro Ffrangeg arnom, dyna sydd ei angen arnom. Mae'n amhosibl peidio â rhoi athro cymwysedig o flaen y dosbarth. Rydym wedi gweld cynnydd o 19 yn nifer y staff ond mae'r rhain yn swyddi cyfnod penodol sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol ag incwm grant. Mewn gwirionedd, mae llawer mwy na 19 o swyddi cyfnod penodol sy'n dod i ben ym mis Gorffennaf 2024.
- Rydym yn ystyried hyfywedd LSI Portsmouth. Ar hyn o bryd rydym yn pwysu a mesur yr opsiynau posibl sydd ar gael i ni a'r hyn sy'n cynrychioli orau'r risg i'r dyfodol i Grŵp Colegau NPTC.
- Rydym wedi derbyn cynnig ar Adeilad LSI yn Portsmouth am werthiant syml o £3.5m a 12 mis yn ddi-rent o eiddo addas o fewn yr adeilad.
- Rydym hefyd yn ystyried tri opsiwn ar gyfer LSI Portsmouth. Mae'r rhain i gyd yn mynd ymlaen wrth werthu'r adeilad, sef:
 - Cau'r busnes
 - Gwerthu'r busnes
 - Gwerthu rhan o'r busnes a chael buddsoddwyr gyda phrofiad addysg, gwerth ychwanegol a swyddfa yn nes at Portsmouth

Yn ddiweddar rydym wedi anfon yr holl wybodaeth diwydrwydd dyladwy at asiant yn Saudi Arabia sydd ar hyn o bryd yn cyflenwi llawer o fyfyrwyr i Brifysgol Portsmouth. Yn ddiweddar prynodd adeilad yn barod ar gyfer cychwyn Ysgol Iaith. Byddwn yn ymateb i unrhyw gwestiynau ychwanegol a godir.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda chorff dyfarnu ar nifer o brosiectau dramor. Maent ar raglen gaffael wrth dyfu eu cwmni ac eisoes wedi caffael tri chwmni tebyg i'w rhai nhw. Fodd bynnag, mae'r cwmni hwn hefyd yn cynnig cyrsiau ac ardystiad ESOL sy'n cyd-fynd yn dda iawn ag LSI Portsmouth. Mae ein sgwrs wedi arwain at iddynt fynegi diddordeb mewn caffael cyfran leiafrifol yn y busnes. Bydd hyn yn ein galluogi i ennill digon o arian i gael clustog arian parod yn y busnes tra bod gennym ddigon o arian i ddatblygu'r busnes yn gyflym drwy fuddsoddi mewn technoleg fodern. Er bod LSI wedi cynnig rhaglenni ar-lein nid yw'r llwyfan a'r rhaglenni wedi'u datblygu'n ddigonol. Byddai hyn yn agor marchnadoedd mawr i LSI ac yn gweld eu hadferiad yn mynd o drosgiant mor isel â £653 yn 2012 i ymhell dros £3.5m y flwyddyn nesaf.

- Mae gan y Coleg hefyd gynnig o £0.5m ar gyfer llain o dir segur yn Aberhonddu. Ar hyn o bryd mae hwn yn mynd trwy ganiatâd cynllunio gyda Pharciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yr Awdurdod cynllunio. Cwmni coetsis yw hwn ac rydym wedi clymu hyfforddiant prentisiaid o dan CSR â gwerthu'r tir. Nid ydym yn credu y bydd hyn yn gyflawn yn ystod y flwyddyn academaidd hon ond mae'n helpu i ddangos sut yr ydym yn ennill incwm o'n hystadau.
- Yn olaf, pan fyddwn yn symud ein holl addysg o Gampws Bannau Brycheiniog i'r prosiectau newydd a chyffrous yng nghanol y dref, byddwn yn gallu cael gwared ar y tir. Mae'r Awdurdod Lleol yn ddiweddar wedi

dymchwel yr hen ysgol sydd â ffordd a rennir i'n coleg ac sydd ar yr un safle, sy'n golygu y byddwn ar y cyd yn gwneud y mwyaf o'r derbyniadau cyfalaf. Unwaith eto, bydd hyn yn y dyfodol.

Mae Bwrdd y Gorfforaeth wedi parhau i gymeradwyo strategaeth eang y Grŵp o ehangu rheoledig yn ystod cyfnod o helbul economaidd. Diben y strategaeth hon yw sicrhau bod sefydliad cryfach a mwy annibynnol yn ariannol yn cael ei ddatblygu, yn hytrach nag un sy'n cilio i gynnig llawer llai o weithgarwch craidd. Mae'r strategaeth hon yn gofyn am fasnacheiddio'r Coleg ar draws nifer o feysydd sy'n gyson â'n gwerthoedd a'n nodau craidd. Mae'r Grŵp yn chwilio'n barhaus am gyfleoedd newydd yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol er mwyn cyflawni hyn. Serch hynny, mae'r Coleg yn parhau i anelu at wella effeithlonrwydd ar draws pob rhan o safle'r Coleg, gyda chynlluniau amrywiol i fynd i'r afael ag arbed ynni a lleihau costau; gan ddeall pwysigrwydd sicrhau'r buddion mwyaf posibl o'r adnoddau gostyngol sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addysg bellach yn yr hinsawdd economaidd bresennol a chyda golwg ar ddyfodol Sero Net.

Busnes Gweithredol

Ar 31 Gorffennaf 2023, roedd gan y Grŵp a'r Coleg arian parod a chyfwerth ag arian parod o £3.9m, gostyngiad sylweddol o'i gymharu â £10.6m ar 31 Gorffennaf 2022. Mae canlyniadau'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023 wedi arwain at y Grŵp yn torri telerau cyfamad ar ei fenthyciad banc gyda Santander. Er y cafwyd hepgoriad gan Santander ar ôl diwedd y flwyddyn, mae benthyciad banc y Grŵp gyda Santander, sef cyfanswm o £1.0m ar 31 Gorffennaf 23 (£0.9m ar hyn o bryd ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol) yn ddyledus ar gais ac wedi'i ddatgelu fel rhwymedigaeth gyfredol.

Mae'r Grŵp a'r Coleg wedi paratoi rhagolygon llif arian sy'n ystyried lefelau disgwylidig grantiau'r Corff Ariannu yn ystod blwyddyn academaidd 2024/2025 ynghyd ag effaith mesurau sy'n cael eu cyflwyno ar draws y Grŵp i leihau gwariant gweithredu a chostau staff. Hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i setliad ariannu dwy flynedd ar gyfer 2023/24 a 2024/25, sy'n caniatáu i £2m o gyllid Dysgu Seiliedig ar Waith gael ei 'gario drosodd' i'r flwyddyn nesaf. Mae arbedion eisoes wedi'u gwneud i gostau gweithredu nad ydynt yn gyflogau ynghyd â gostyngiad ar gostau staff blynyddol.

Mae'r rhagolygon diweddaraf yn nodi y bydd angen rhywfaint o arian ychwanegol ar y Grŵp a'r Coleg o fewn 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol, a bydd yr amseriad a'r maint yn cael eu dylanwadu gan benderfyniadau'r Grŵp ynghylch yr is-gwmni Language Specialists (International) Limited. Mae nifer o opsiynau yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ynglŷn â dyfodol ei is-gwmni Language Specialists (International) Limited a derbyniwyd cynnig yn ddiweddar i waredu ei eiddo rhydd-ddaliadol yng nghanol Portsmouth o £3.5m.

Bydd ymarfer tendro yn cychwyn yn fuan gyda nifer o fanciau i gael cyfleuster benthyciad o £5m wedi'i warantu ar ystad eiddo sy'n weddill y Grŵp. Mae'r Grŵp yn trafod gyda benthycwyr mewn perthynas â'r angen hwn. O ystyried lefel y benthyciadau banc dyledus (£1.8m ar 31 Gorffennaf 2023, £1.5m ar hyn o bryd) o gymharu â gwerth cario tir ac adeiladau (£44.4m ar gyfer y Grŵp, £39.0m ar gyfer y Coleg) y gellir ei ddefnyddio fel sicrwydd i sicrhau benthyciad yn ei erbyn, mae'r Gorfforaeth yn hyderus y bydd y lefel ychwanegol hon o gyllid yn cael ei chyflawni.

Os bydd ymdrechion i godi arian yn aflwyddiannus, bydd angen i'r Grŵp a'r Coleg gael ffynonellau cyllid neu gymorth ariannol eraill, nad ydynt wedi'u hymrwymo ar ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol, er mwyn gallu parhau i fodloni eu rhwymedigaethau ariannol fel busnes gweithredol. O ganlyniad, mae'r Gorfforaeth o'r farn bod ansicrwydd perthnasol a allai achosi cryn amheuaeth ynghylch gallu'r Grŵp a'r Coleg i barhau fel busnes gweithredol. Nid yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw addasiadau y byddai eu hangen pe na bai'r Grŵp a'r Coleg yn gallu parhau fel busnes gweithredol.

ADNODDAU:

Mae gan y Grŵp adnoddau amrywiol y gall eu defnyddio i gyflawni ei amcanion strategol. Mae adnoddau diriaethol yn cynnwys naw campws Coleg ar draws pedair o siroedd Cymru, gan gynnwys dwy theatr, fferm weithredol, canolfan chwaraeon helaeth, pwll nofio, adeilad deg llawr yng nghanol Portsmouth a thua hanner can erw o dir mewn lleoliadau amrywiol ar gael i'w datblygu.

Ariannol

Mae gan y Grŵp £44 miliwn o asedau net ar ôl cynnwys gwarged pensiwn o £13 miliwn (2022: £28 miliwn o asedau net ar ôl cynnwys rhwymedigaeth bensiwn o £5 miliwn) a dyled banc o £1.8 miliwn (2022: £2.2 miliwn).

Pobl

Mae'r Grŵp yn cyflogi 1,038 o bobl (2021/22: 1,019), y mae 542 ohonynt (2021/22: 528) yn staff addysgu.

Enw da

Mae gan y Grŵp a'i is-gwmnïau enw da yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae cynnal brand o safon yn hanfodol i lwyddiant y Grŵp o ran denu myfyrwyr a chysylltiadau allanol. Mae'r Coleg yn ymfalchïo mewn gweithredu gyda'i ddiben craidd wrth wraidd popeth y mae'n ei wneud, sef cadw ei ddrysau ar agor i bob aelod o'i gymuned i gael mynediad at ddysgu a datblygu sgiliau o ansawdd uchel.

PRIF RISGIAU AC ANSICRWYDD:

Parhaodd y Grŵp i weithio yn ystod y flwyddyn i sefydlu'r system rheolaeth fewnol, gan gynnwys rheoli ariannol, gweithredol a rheoli risg, sydd wedi'i dylunio i ddiogelu asedau ac enw da'r Grŵp.

Yn seiliedig ar y cynllun strategol, mae'r Grŵp Cyllid a Rheoli Risg yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r risgiau y mae'r Grŵp yn agored iddynt. Maent yn nodi systemau a gweithdrefnau, gan gynnwys camau ataliadwy penodol a ddylai liniaru unrhyw effaith bosibl ar y Grŵp. Yna caiff y rheolaethau mewnol eu gweithredu, a bydd y gwerthusiad parhaus yn adolygu eu heffeithiolrwydd a'u cynnydd yn erbyn camau lliniaru risg. Yn ogystal â'r adolygiad blynyddol, bydd y Grŵp Cyllid a Rheoli Risg hefyd yn ystyried unrhyw risgiau a all godi o ganlyniad i faes newydd o waith sy'n cael ei wneud gan y Grŵp.

Cedwir cofrestr risg ar lefel adrannol ac ar lefel Grŵp a adolygir o leiaf yn flynyddol gan y Pwyllgor Archwilio ac yn amlach lle bo angen. Mae'r gofrestr risg yn nodi'r risgiau allweddol, y tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n digwydd, eu heffaith bosibl ar y Grŵp a'r camau sy'n cael eu cymryd i leihau a lliniaru'r risgiau. Caiff risgiau eu blaenoriaethu gan ddefnyddio system sgorio gyson.

Cefnogir hyn gan raglen hyfforddi rheoli risg i godi ymwybyddiaeth o risg drwy'r Grŵp.

Amlinellir isod ddisgrifiad o'r prif ffactorau risg strategol a all effeithio ar y Grŵp. Nid yw'r holl ffactorau o fewn rheolaeth y Grŵp. Gall ffactorau eraill ar wahân i'r rhai a restrir isod hefyd effeithio'n andwyol ar y Grŵp.

- Mae setliadau cyllid yn y dyfodol wedi'u lleihau oherwydd yr hinsawdd economaidd.
- Methiant i gyrraedd targedau ariannu AB yn arwain at adfachu cyllid a cholled ariannol.
- Buddsoddiad cyfalaf annigonol ar gael i gefnogi amcanion strategol a gweithredol.
- Methiant i recriwtio staff addas, cymwys a phrofiadol yn arwain at swyddi gwag parhaus a darpariaeth gwasanaeth gwael.
- Nid yw gweithgarwch rhyngwladol yn cynhyrchu incwm disgwylidig ar gyfer Grŵp y DU oherwydd materion diwylliannol, newidiadau gwleidyddol neu newidiadau sylweddol mewn cyfraddau cyfnewid.

Mae rheolwyr y Grŵp yn cymryd golwg ddarbodus ar y gofrestr risg strategol ac yn sgorio ac yn adrodd ar y 'senario waethaf' er mwyn sicrhau nad oes cysur ffug. Mae'r holl risgiau a nodwyd yn parhau i gael eu rheoli a'u monitro'n weithredol gan y Pwyllgor Archwilio.

PERTHYNAS Â RHANDEILIAID

Yn unol â cholegau eraill a phrifysgolion, mae gan Grŵp Colegau NPTC lawer o randdeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys:

- myfyrwyr;
- Llywodraeth Cymru;
- staff;
- cyflogwyr lleol;
- Awdurdodau Lleol;
- y gymuned leol;

Grŵp Colegau NPTC

- aelodau o'n campfa ym Mharc Llandarcy;
- sefydliadau AB eraill;
- sefydliadau AU;
- Partneriaethau Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol
- undebau llafur;
- y sector gwirfoddol lleol;
- ysgolion lleol;
- cynrychiolwyr gwleidyddol a etholwyd yn lleol (ASau, ASau Cymru, ASEau);
- Asiantaeth Ffiniau'r DU;
- Cyngor Prydeinig;
- cyngorau sgiliau sector;
- Paneli Sianel;
- Cyngor Celfyddydau Cymru; a
- chyrff proffesiynol.

Mae'r Coleg yn cydnabod pwysigrwydd y perthnasoedd hyn ac yn cyfathrebu'n rheolaidd â nhw trwy wefan y Coleg a thrwy gyfarfodydd.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r Grŵp wedi ymrwmo i sicrhau cyfle cyfartal i bawb sy'n dysgu ac yn gweithio yma. Rydym yn parchu ac yn gwerthfawrogi gwahaniaethau mewn hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabled, crefydd neu gred ac oedran. Rydym yn ymdrechu'n galed i ddileu amodau sy'n rhoi pobl dan anfantais, a byddwn yn brwydro yn erbyn rhagfarn. Rhoddir adnoddau i'r polisi hwn, a chaiff ei weithredu a'i fonitro ar sail gynlluniedig. Cyhoeddir Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Coleg ar fewnrwyd y Coleg.

Nod y Grŵp yw sicrhau bod yr holl fyfyrwyr, staff a defnyddwyr eraill y Grŵp yn cael eu trin yn gyfartal ni waeth a oes ganddynt, neu y canfyddir bod ganddynt, unrhyw rai o'r nodweddion gwarchoddedig, sef oedran, anabled, ail-bennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Cyhoeddodd y Grŵp ei ail Gynllun Cydraddoldeb Strategol yn 2020, yn cwmpasu'r cyfnod 2020 i 2024 yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Datblygwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn dilyn cyfres o weithgareddau ymgynghori gyda dysgwyr, aelodau staff a rhanddeiliaid allanol allweddol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlinellu cyfres o amcanion cydraddoldeb sy'n canolbwyntio ar y nodweddion gwarchoddedig a nodir fel rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Grŵp yn parhau i weithio tuag at gyflawni'r amcanion hynny o fewn yr amserlen benodedig.

	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023
Bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau	3.8%
Bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau	7.4%
Bwlch bonws cymedrig rhwng y rhywiau	-71.9%
Bwlch bonws canolrifol rhwng y rhywiau	-25.1%
Cyfran y gwrywod/benywod sy'n derbyn bonws	0.9%/0.8%

Mae cyfran y gwrywod a'r benywod ym mhob chwarterl o'r dosbarthiad cyflog fel a ganlyn:

	Gwrywod	Benywod
1 - Chwarterl isaf	29.5%	70.5%
2	39.1%	61.0%
3	38.6%	61.4%
4 – Chwarterl uchaf	44.8%	55.2%

Mae'r coleg yn cyhoeddi ei adroddiad bwlch cyflog rhwng y rhywiau blynyddol ar ei wefan.

Datgelu gwybodaeth i archwilwyr

Mae'r aelodau a oedd yn dal swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn yn cadarnhau, hyd y gwyddant, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Grŵp yn ymwybodol ohoni; ac mae pob aelod wedi cymryd yr holl gamau y dylai ef neu hi fod wedi eu cymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr y Grŵp yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Wedi'i gymeradwyo trwy orchymyn aelodau'r Gorfforaeth ar 24 Ebrill 2024 a'i lofnodi ar ei rhan gan:

Rhobert Lewis



Cadeirydd y Gorfforaeth

Dyddiad 24.04.2024

Datganiad Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol

Darperir y datganiad a ganlyn i alluogi darllenwyr adroddiad blynyddol a chyfrifon y Grŵp i gael gwell dealltwriaeth o'i strwythur llywodraethu a chyfreithiol. Mae'r datganiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Awst 2022 a 31 Gorffennaf 2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol.

Mae'r Grŵp yn ymdrechu i gynnal ei fusnes:

- i. yn unol â'r saith egwyddor a nodwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth); a
- ii. gan roi sylw dyledus i'r Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru.

Mae'r Grŵp wedi ymrwmo i arddangos arfer gorau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol ac yn benodol mae'r Grŵp wedi mabwysiadu ac yn gweithio tuag at sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r Cod. Ym marn y Llywodraethwyr, mae'r Grŵp yn cydymffurfio â'r mwyafrif o ddarpariaethau'r Cod, ac mae wedi cydymffurfio â'r darpariaethau hynny drwy gydol y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2023 a hyd at ddyddiad llofnodi'r cyfrifon. Mae'r Corff Llywodraethu yn cydnabod bod ganddo, fel corff yr ymddiriedwyd arian cyhoeddus a phreifat iddo, ddyletswydd benodol i gadw at y safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol bob amser.

Mae'r Coleg yn elusen eithriedig o fewn ystyr Rhan 3 o Ddeddf Elusennau 2011. Mae'r Llywodraethwyr, sydd hefyd yn Ymddiriedolwyr at ddibenion Deddf Elusennau 2011, yn cadarnhau eu bod wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus a bod y datganiadau gofynnol yn ymddangos mewn man arall yn y datganiadau ariannol hyn.

Y Gorfforaeth

Rhestrir yr aelodau a wasanaethodd ar y Gorfforaeth yn ystod y flwyddyn a hyd at ddyddiad llofnodi'r adroddiad hwn yn y tabl isod.

ENW'R AELOD		CATEGORI A PHWYLLGORAU	DYDDIAD		Sylwadau
CYFENW	ENW BLAEN		PENODWYD	DOD I BEN	
Lewis Cadeirydd	Rhobert	Cadeiryddion a A&DC	03.05.18	03.05.24	Tymor 1 ^{af} : Cymeradwywyd yn Gadeirydd ar 17 Tachwedd 2021
Hehir <i>Is-Gadeirydd; Cadeirydd, Archwilio</i>	James	Cadeiryddion ac Archwilio	29.03.06	04.04.23	4 ^{ydd} Tymor: Cymeradwywyd fel Cadeirydd Archwilio ar 2 Rhagfyr 2021
Cragg <i>Cyd-Gadeirydd, A&DC</i>	Graham	Cadeiryddion a A&DC	10.12.98	11.07.24	5 ^{ed} Tymor
Ifans <i>Cyd-Gadeirydd, A&DC</i>	Mandy	Cadeiryddion a A&DC	08.06.11	07.06.24	3 ^{ydd} Tymor
Williams Is-Gadeirydd, Archwilio	James	Archwilio Cyfetholedig	21.07.21	21.10.24	Tymor 1 ^{af} : Cymeradwywyd yn Is-Gadeirydd Archwilio 28 Ebrill 2022.
Burgoyne	Tony	Staff A&DC	24.10.13	31.12.22	2 ^{il} Dymor
Dacey	Marc	Pennaeth Cadeiryddion a A&DC	01.05.04	<i>Ex officio</i>	
Lewis	Catherine	Prif Weithredwr Dros Dro		<i>Ex officio</i>	
Harding	Jill	A&DC	22.10.08	04.04.24	4 ^{ydd} Tymor
Harvey	Mathew	Cyfetholedig Archwilio	28.04.16	28.04.24	Tymor 1 ^{af}
Jones	Susan Ann	Archwilio	30.06.22	30.06.26	Tymor 1 ^{af} : Cynghorydd Cyfetholedig o 24 Gorffennaf 2021; Llywodraethwr o 30 Mehefin 2022
Morgan	Helen	A&DC	08.06.11	13.11.24	3 ^{ydd} Tymor
Stephens	Ceri	A&DC	04.04.19	04.04.24	Tymor 1 ^{af}
Turner	Heather	Archwilio	29.01.20	29.01.24	Tymor 1 ^{af}
Watts	Kayleigh	Myfyriwr	16.12.2021	30.06.2023	2 ^{il} Dymor; Ymddiswyddodd 30 Mehefin 2023.
Pearce	Emily	Myfyriwr	16.12.2021	30.06.2023	2 ^{il} Dymor; Ymddiswyddodd 30 Mehefin 2023.

Clerc: Mrs G Charnock (Is-bennaeth: Cysylltiadau Allanol ac Ysgrifennydd y Grŵp)

Cyfrifoldeb y Gorfforaeth yw llunio barn annibynnol ar faterion strategaeth, perfformiad, adnoddau a safonau ymddygiad.

Rhoddir gwybodaeth reolaidd ac amserol i'r Gorfforaeth am berfformiad ariannol cyffredinol y Grŵp ynghyd â gwybodaeth arall megis perfformiad yn erbyn targedau ariannu, gwariant cyfalaf arfaethedig, materion ansawdd a materion yn ymwneud â phersonél megis iechyd a diogelwch a materion amgylcheddol. Mae'r Gorfforaeth yn cyfarfod o leiaf unwaith bob tymor.

Mae'r Gorfforaeth yn cynnal ei busnes drwy bedwar pwyllgor. Mae gan bob pwyllgor gylch gorchwyl, sydd wedi'i gymeradwyo gan y Gorfforaeth. Y pwyllgorau hyn yw Archwilio, Tâl, Adnoddau a Dibenion Cyffredinol, Cadeiryddion (Chwilio a Llywodraethu). Mae cofnodion llawn o'r holl gyfarfodydd, ac eithrio'r rhai y mae'r Gorfforaeth yn eu hystyried yn gyfrinachol, ar gael gan y Pennaeth Cynorthwyol: Llywodraethu yn:

Grŵp Colegau NPTC,
Campws Coleg Castell-nedd
Heol Dŵr-y-Felin
Castell-nedd
SA10 7RF

Bydd y Pennaeth Cynorthwyol: Llywodraethu yn cadw cofrestr o fuddiannau ariannol a phersonol yr aelodau. Mae'r gofrestr ar gael i'w harchwilio yn y cyfeiriad uchod ac ar wefan y Grŵp.

Gall pob aelod geisio cyngor proffesiynol annibynnol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau ar draul y Grŵp a chael mynediad at y Pennaeth Cynorthwyol: Llywodraethu, sy'n gyfrifol i'r Bwrdd am sicrhau y cydymffurfir â'r holl weithdrefnau a rheoliadau perthnasol. Mae penodi, gwerthuso a diswyddo'r Pennaeth Cynorthwyol: Llywodraethu yn faterion i'r Gorfforaeth gyfan.

Darperir agendâu, papurau ac adroddiadau ffurfiol i aelodau mewn modd amserol, cyn cyfarfodydd y Bwrdd. Darperir briffiau ar sail ad hoc.

Mae gan y Gorfforaeth elfen anweithredol gref ac annibynnol, ac nid yw unrhyw unigolyn na grŵp yn dominyddu ei phroses o wneud penderfyniadau. Mae'r Gorfforaeth o'r farn bod pob un o'i haelodau anweithredol yn annibynnol ar reolwyr ac yn rhydd rhag unrhyw fusnes neu berthynas arall a allai ymyrryd yn sylweddol ag arfer eu barn annibynnol.

Mae rhaniad clir o ran cyfrifoldeb gan fod rolau'r Cadeirydd a'r Swyddog Cyfrifyddu ar wahân.

Mae Bwrdd y Gorfforaeth wedi mabwysiadu'r Cod Llywodraethu Da newydd ar gyfer Colegau yng Nghymru, i sicrhau bod y sefydliad yn cynnal ei fusnes er budd gorau ei fyfyrwyr a'i gyllidwyr.

Penodiadau i'r Gorfforaeth

Mae unrhyw benodiadau newydd i'r Gorfforaeth yn fater i'r Gorfforaeth gyfan ei ystyried. Mae gan y Gorfforaeth bwyllgor chwilio, sy'n cynnwys Cadeiryddion a Phrif Weithredwr y Gorfforaeth, sy'n gyfrifol am ddewis ac enwebu unrhyw aelod newydd i'w ystyried gan y Gorfforaeth. Mae'r Gorfforaeth yn gyfrifol am sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu yn ôl yr angen.

Penodir aelodau'r Gorfforaeth am gyfnod mewn swydd nad yw'n hwy na phedair blynedd. Nid oes cyfyngiad ar nifer y tymhorau swydd y gall aelod eu gwasanaethu, fodd bynnag, mae pob tymor newydd yn y swydd yn amodol ar gymeradwyaeth y Gorfforaeth.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22, ymddeolodd dau aelod o'r bwrdd, gan gynnwys Llywodraethwr staff, penodwyd un Llywodraethwr i'r bwrdd a phenodwyd dau Lywodraethwr dan hyfforddiant.

Perfformiad y Gorfforaeth

Y targed presenoldeb ar gyfer Bwrdd y Gorfforaeth a'r Pwyllgorau ar gyfer 2022-23 oedd 84%. Cyfanswm cyfradd presenoldeb y Gorfforaeth ar gyfer 2022-23 oedd 86%. Cyfanswm cyfradd presenoldeb y Gorfforaeth ar gyfer 2021-22 oedd 75%.

Mae'r dadansoddiad o ffigurau presenoldeb 2022-23 fel a ganlyn:

Cadeiryddion (Chwilio a Llywodraethu) 86%; Adnoddau a Dibenion Cyffredinol 71%; Archwilio 100%; Tâl 100% a Bwrdd y Gorfforaeth 86%.

Y targed presenoldeb oedd 75%.

Cyflawnodd 12 Aelod a wasanaethodd am y cyfan o'r flwyddyn academaidd 2022-2023 y targed presenoldeb o 75%, gyda 9 Aelod yn cyflawni dros 80%. Ni chafodd y Myfyrwyr Lywodraethwyr eu cynnwys yng nghyfrifiadau ffigurau presenoldeb 2022-23.

Pwyllgor Tâl

Drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023 roedd Pwyllgor y Cadeiryddion yn gyfrifol am wneud argymhellion i'r Bwrdd ar dâl a buddion y Swyddog Cyfrifyddu a phersonél rheoli allweddol eraill.

Mae manylion y taliadau am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023 wedi'u nodi yn nodyn 7 i'r datganiadau ariannol.

Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys pum aelod o'r Gorfforaeth (gan gynnwys y Cadeirydd). Mae'r Pwyllgor yn gweithredu yn unol â'r cylch gorchwyl ysgrifenedig a gymeradwywyd gan y Gorfforaeth. Ymddeolodd un Aelod Bwrdd o'r Gorfforaeth ac, felly, gadawodd y Pwyllgor Archwilio; yna cymerodd yr Aelod Bwrdd newydd y lle gwag ar y Pwyllgor Archwilio.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod bob tymor ac yn darparu fforwm ar gyfer cyflwyno adroddiadau gan gyfrifwyr adrodd ac archwilwyr datganiadau ariannol mewnol y Grŵp, sydd â mynediad i'r Pwyllgor ar gyfer trafodaeth annibynnol, heb bresenoldeb rheolwyr y Grŵp. Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan y prif gyrrff cyllido AB fel y maent yn effeithio ar fusnes y Grŵp.

Mae archwilwyr mewnol y Grŵp yn adolygu'r systemau rheolaeth fewnol, rheolaethau rheoli risg a phrosesau llywodraethu yn unol â chynllun mewnbwn y cytunwyd arno ac yn adrodd ar eu canfyddiadau i'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r argymhellion archwilio y cytunwyd arnynt ac mae'r archwiliad mewnol yn cynnal adolygiadau dilynol cyfnodol i sicrhau bod argymhellion o'r fath wedi'u gweithredu.

Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn cynghori'r Gorfforaeth ar benodi archwilwyr datganiadau mewnol ac ariannol a'u tâl am waith archwilio a gwaith nad yw'n waith archwilio yn ogystal ag adrodd yn flynyddol i'r Gorfforaeth.

Rheolaeth fewnol

Cwmpas cyfrifoldeb

Y Gorfforaeth sy'n gyfrifol yn y pen draw am system rheolaeth fewnol y Grŵp ac am adolygu ei heffeithiolrwydd. Fodd bynnag, mae system o'r fath wedi'i chynllunio i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethiant i gyflawni amcanion busnes a gall roi sicrwydd rhesymol yn unig ac nid sicrwydd llwyr yn erbyn camddatganiad neu golled berthnasol.

Mae'r Gorfforaeth wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu, am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion y Grŵp, tra'n diogelu'r arian cyhoeddus a'r asedau y mae'n bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd iddo yn y Memorandwm Ariannol rhwng Grŵp Colegau NPTC a Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn gyfrifol am adrodd i'r Gorfforaeth ar unrhyw wendidau neu doriadau perthnasol mewn rheolaeth fewnol.

Pwrpas y system rheolaeth fewnol

Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethiant i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt o effeithiolrwydd y gall ei roi. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a luniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Grŵp, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu

a'r effaith petaent yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith yng Ngrŵp Colegau NPTC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

Y gallu i drin risg

Mae'r Gorfforaeth wedi adolygu'r risgiau allweddol y mae'r Grŵp yn agored iddynt ynghyd â'r rheolaethau gweithredu, ariannol a chydymffurfio a roddwyd ar waith i liniaru'r risgiau hynny. Mae'r Gorfforaeth o'r farn bod proses barhaus ffurfiol ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol y Grŵp wedi bod ar waith ar gyfer y cyfnod yn diwedd 31 Gorffennaf 2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Mae'r broses hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Gorfforaeth.

Y fframwaith risg a rheoli

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar fframwaith o wybodaeth reoli reolaidd, gweithdrefnau gweinyddol gan gynnwys rhannu dyletswyddau, a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Yn benodol, mae'n cynnwys:

- systemau cyllidebu cynhwysfawr gyda chyllideb flynyddol, sy'n cael ei hadolygu a'i chytuno gan y corff llywodraethu;
- adolygiadau rheolaidd gan y corff llywodraethu o adroddiadau ariannol cyfnodol a blynyddol sy'n nodi perfformiad ariannol yn erbyn rhagolygon;
- gosod targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall;
- canllawiau rheoli buddsoddiadau cyfalaf wedi'u diffinio'n glir; a
- mabwysiadu disgyblaethau rheoli prosiect ffurfiol, lle bo'n briodol.

Mae gan Grŵp Colegau NPTC wasanaeth archwilio mewnol, sy'n gweithredu'n unol â gofynion Cod Ymarfer Archwilio Addysg Bellach Llywodraeth Cymru. Caiff gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol ei lywio gan ddadansoddiad o'r risgiau y mae'r Grŵp yn agored iddynt, ac mae cynlluniau archwilio mewnol blynyddol yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn. Mae'r dadansoddiad o risgiau a'r cynlluniau archwilio mewnol yn cael eu cymeradwyo gan y Gorfforaeth ar argymhelliad y Pwyllgor Archwilio. Yn flynyddol o leiaf, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol (HIA) yn rhoi adroddiad i'r corff llywodraethu ar weithgarwch archwilio mewnol yn y Grŵp. Mae'r adroddiad yn cynnwys barn annibynnol yr HIA ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheoli risg, rheolaethau a phrosesau llywodraethu'r Grŵp.

Arweiniodd y gwaith a wnaed gan y gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod 2022-2023 at y casgliad bod gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.

Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, y Pennaeth sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff ei adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol ei lywio gan:

- gwaith yr archwilwyr mewnol;
- gwaith y rheolwyr gweithredol o fewn y Grŵp sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol; a
- sylwadau a wnaed gan archwilwyr y datganiadau ariannol yn eu llythyrau rheoli ac adroddiadau eraill.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cael gwybod am oblygiadau canlyniad ei adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Pwyllgor Archwilio, sy'n goruchwyllo gwaith yr archwilwyr mewnol a ffynonellau sicrwydd eraill, a chynllun i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau bod y system yn gwella'n barhaus.

Mae'r uwch dîm rheoli yn derbyn adroddiadau sy'n nodi dangosyddion perfformiad a risg allweddol ac yn ystyried materion rheoli posibl a ddaw i'w sylw trwy fecanweithiau rhybuddio cynnar, sydd wedi'u gwreiddio yn yr adrannau ac wedi'u hatgyfnerthu gan hyfforddiant ymwybyddiaeth risg. Mae'r uwch dîm rheoli a'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn cael adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol a ffynonellau sicrwydd eraill, sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer gwelliant. Mae rôl y Pwyllgor Archwilio yn y maes hwn wedi'i gyfyngu i adolygiad lefel uchel o'r trefniadau ar gyfer rheolaeth fewnol.

Ar sail cyngor y Pwyllgor Archwilio a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Gorfforaeth, felly, o'r farn bod gan y Grŵp

Grŵp Colegau NPTC

fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, a'i fod wedi cyflawni ei gyfrifoldeb statudol o ran "defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau, diddyledrwydd y sefydliad a'r corff a diogelu eu hasedau".

Wedi'i gymeradwyo trwy orchymyn aelodau'r Gorfforaeth ar 24 Ebrill 2024 a'i lofnodi ar ei rhan gan:

Llofnodwyd R Lewis

Dyddiad 24.04.2024

Rhobert Lewis, Cadeirydd y Gorfforaeth

Llofnodwyd [Signature]

Dyddiad 24.04.2024

Mark Dacey Prif Weithredwr


Datganiad y Corff Llywodraethu ar reoleidd-dra, priodoldeb a chydymffurfiaeth y Grŵp â thelerau ac amodau cyllido'r Corff Ariannu

Mae'r Gorfforaeth wedi ystyried ei chyfrifoldeb i hysbysu Llywodraeth Cymru am afreoleidd-dra sylweddol, amhriodoldeb a diffyg cydymffurfio â'r telerau ac amodau ariannu, o dan yr amodau cyllid sydd ar waith rhwng y Grŵp a Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'n hystyriaeth, rydym wedi rhoi sylw dyledus i ofynion yr amodau ariannu.

Fel swyddog cyfrifyddu, cadarnhaf fod y coleg wedi rhoi sylw dyledus i ofynion cytundebau cyllid grant a chontractau gyda Llywodraeth Cymru a'i fod wedi ystyried ei gyfrifoldeb i hysbysu Llywodraeth Cymru am afreoleidd-dra, amhriodoldeb a diffyg cydymffurfio o ran telerau ac amodau. cyllid.

Cadarnhaf ar ran y coleg, ar ôl ymholiad priodol, a hyd eithaf fy ngwybodaeth, fy mod yn gallu nodi unrhyw ddefnydd perthnasol afreolaidd neu amhriodol o gyllid gan y coleg, neu ddiffyg cydymffurfio perthnasol â thelerau ac amodau'r cyllid, o dan gytundebau cyllid grant y coleg a chontractau gyda Llywodraeth Cymru, neu unrhyw ariannwr cyhoeddus arall.

Rydym yn cadarnhau na ddarganfuwyd unrhyw achosion o afreoleidd-dra perthnasol, amhriodoldeb neu ddiffyg cydymffurfio ariannol hyd yma. Os nodir unrhyw achosion ar ôl dyddiad y datganiad hwn, rhoddir gwybod i Lywodraeth Cymru am y rhain.



Mark Dacey

Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad ...24.04.2024.

Datganiad cadeirydd y llywodraethwyr ar ran y coleg, cadarnhaf fod y swyddog cyfrifyddu wedi trafod ei ddatganiad o reoleidd-dra, priodoldeb a chydymffurfiaeth â'r bwrdd a fy mod yn fodlon ei fod yn berthnasol gywir.



Rhobert Lewis

Cadeirydd y

Llywodraethwyr

Dyddiad24.04.24.....

Datganiad o Gyfrifoldebau Aelodau'r Gorfforaeth

Mae'n ofynnol i aelodau'r Gorfforaeth gyflwyno datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

O fewn telerau ac amodau'r Memorandwm Ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a Chorfforaeth y Coleg, mae'n ofynnol i'r Gorfforaeth, drwy ei Swyddog Cyfrifyddu, baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â'r *Datganiad o Arferion Cymeradwy 2019 – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch* a chyda'r *Cyfarwyddyd Cyfrifon y Coleg 2022 i 2023* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, ac sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r canlyniad ar gyfer y flwyddyn honno.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r Gorfforaeth:

- ddewis polisiau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a doeth;
- datgan p'un a ddilynwyd Safonau Cyfrifyddu perthnasol, yn amodol ar unrhyw wriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y datganiadau ariannol.
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol i dybio y bydd y Grŵp yn parhau i weithredu.


Mae'n ofynnol hefyd i'r Gorfforaeth baratoi Adroddiad y Corff Llywodraethu sy'n disgrifio'r hyn y mae'n ceisio'i wneud a sut y mae'n mynd ati, gan gynnwys statws cyfreithiol a gweinyddol y Grŵp.

Mae'r Gorfforaeth yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg benodol beth yw sefyllfa ariannol y Grŵp, ac sy'n ei alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â'r deddfwriaeth gorffori berthnasol a safonau cyfrifyddu perthnasol eraill. Mae'n gyfrifol hefyd am gymryd camau rhesymol sydd ar gael iddo er mwyn diogelu asedau'r Grŵp ac i atal a chanfod twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

Cyfrifoldeb Corfforaeth y Coleg yw cynnal gwefan y Coleg a sicrhau ei chywirdeb; nid yw'r gwaith a wneir gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i deddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Mae aelodau'r Gorfforaeth yn gyfrifol am sicrhau bod gwariant ac incwm yn cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Lywodraeth Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Yn ogystal, maent yn gyfrifol am sicrhau mai dim ond yn unol â'r Memorandwm Ariannol gyda Llywodraeth Cymru ac unrhyw amodau eraill y gellir eu rhagnodi o bryd i'w gilydd y caiff arian gan Lywodraeth Cymru ei ddefnyddio. Rhaid i aelodau'r Gorfforaeth sicrhau bod rheolaethau ariannol a rheolaethol priodol yn eu lle er mwyn diogelu cronfeydd cyhoeddus a chronfeydd eraill a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n briodol. Yn ogystal, mae aelodau'r Gorfforaeth yn gyfrifol am sicrhau rheolaeth ddarbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a gwariant y Grŵp, fel nad yw'r buddion a ddylai ddeillio o ddefnyddio arian cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru yn cael eu peryglu.

Wedi'i gymeradwyo drwy orchymyn gan aelodau'r Gorfforaeth ar ei rhan ac wedi'i lofnodi ar ei rhan gan:

Llofnodwyd  Dyddiad 24.04.2024

Rhobert Lewis, Cadeirydd y Gorfforaeth

Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i Gorfforaeth Coleg Castell-nedd Port Talbot (y "Coleg")

Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Barn

Yn ein barn ni, mae datganiadau ariannol Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot a datganiadau ariannol y Coleg (y "datganiadau ariannol"):

- yn darparu barn gywir a theg am gyflwr materion y Grŵp a'r Coleg ar 31 Gorffennaf 2023, ac o incwm a gwariant y Grŵp a'r Coleg a llif arian y grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon", a chyfraith berthnasol);
- wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol a gofynion y Datganiad o Arfer a Argymhellir - Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Rydym wedi archwilio'r datganiadau ariannol, sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynnyddol (yr "Adroddiad Blynnyddol"), sy'n cynnwys Mantolenni Cyfunol a'r Coleg ar 31 Gorffennaf 2023; y Datganiadau Cyfunol a'r Coleg o Incwm Cynhwysfawr, y Datganiadau Cyfunol a'r Coleg o Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn a'r Datganiad Cyfunol o Lifoedd Arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r nodiadau i'r Cyfrifon, sy'n cynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Sail i'r farn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) ("ISAs (DU)") a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan ISAs (DU) ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilwyr i archwilio'r datganiadau ariannol ein hadroddiad. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer ein barn.

Annibyniaeth

Arosasom yn annibynnol ar y grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, sy'n cynnwys Safon Foesebol FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Ansicrwydd materol yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth lunio ein barn ar y datganiadau ariannol, nad yw wedi'i haddasu, rydym wedi ystyried digonolrwydd y datgeliad a wnaed yn nodyn 1 i'r datganiadau ariannol ynghylch gallu'r Grŵp a'r Coleg i barhau fel busnes gweithredol. Mae'r rhagolygon llif arian diweddaraf yn nodi y bydd angen arian ychwanegol ar y Grŵp a'r Coleg o fewn 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol, a bydd yr amseriad a'r maint yn cael eu dylanwadu gan benderfyniadau'r Grŵp ynghylch dyfodol ei is-gwmni Language Specialists (International) Limited. Bydd ymarfer tendro i gael cyfleuster benthyca wedi'i warantu ar ystâd eiddo'r Grŵp yn dechrau'n fuan ond nid yw cyfleuster o'r fath yn ei le eto. Os bydd yr ymarfer tendro yn aflwyddiannus, bydd angen i'r Grŵp a'r Coleg geisio cyllid o ffynonellau ychwanegol nad ydynt wedi'u hymrwymo ar ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol. Mae'r amodau hyn, ynghyd â'r materion eraill a eglurir yn nodyn 1 i'r datganiadau ariannol, yn dangos ansicrwydd materol a allai achosi cryn amheuaeth ynghylch gallu'r Grŵp a'r Coleg i barhau fel busnes gweithredol. Nid yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys yr addasiadau a fyddai'n deillio o hynny pe na bai'r Grŵp a'r Coleg yn gallu parhau fel busnes gweithredol.

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd y Gorfforaeth o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Gorfforaeth mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Adrodd ar wybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr holl wybodaeth a gynhwyswyd yn yr Adroddiad Blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilwyr ar hynny. Mae'r Gorfforaeth yn gyfrifol am y wybodaeth arall Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac, yn unol â hynny, nid ydym yn mynegi barch archwilio neu unrhyw fath o sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn berthnasol. Os byddwn yn nodi anghysondeb perthnasol neu gamddatganiad perthnasol posibl, mae'n ofynnol i ni gynnal gweithdrefnau i benderfynu a oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad perthnasol o ran yr wybodaeth arall. Os, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed, deuwon i'r casgliad nad oes camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn seiliedig ar y cyfrifoldebau hyn.

Cyfrifoldebau am y datganiadau ariannol a'r archwiliad

Cyfrifoldebau'r Gorfforaeth am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Aelodau'r Gorfforaeth, mae'r Gorfforaeth yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Mae'r Gorfforaeth hefyd yn gyfrifol am unrhyw reolaeth fewnol y mae'n penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Gorfforaeth yn gyfrifol am asesu gallu'r grŵp a'r sefydliad i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel sy'n briodol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu oni bai bod y Gorfforaeth yn bwriadu naill ai i ddatod y Grŵp a'r Coleg neu i roi'r gorau i'w weithgareddau, neu ei bod heb ddewis realistig ond i wneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw hynny'n warant y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol â ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan yw'n bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyriar yn berthnasol os, yn unigol neu o'u cydgrynhoi, gellid yn rhesymol eu disgwyl i ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rydym yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r Grŵp/diwydiant, fe wnaethom nodi bod y prif risgiau o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn ymwneud â deddfwriaeth iechyd a diogelwch a chyflogaeth y DU ynghyd â'r Memorandwm Ariannol rhwng y Coleg a Llywodraeth Cymru, ac fe wnaethom ystyried y i ba raddau y gallai diffyg cydymffurfio gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol. Gwnaethom hefyd ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol megis y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Gwerthuswyd cymhellion a chyfleoedd rheolwyr ar gyfer trin y datganiadau ariannol yn dwyllodrus (gan gynnwys y risg o ddiystyru rheolaethau) a phenderfynwyd bod y prif risgiau yn ymwneud â chofnodi trafodion twyllodrus wedi'u cynllunio i or-ddatgan perfformiad neu sefyllfa ariannol y grŵp. Roedd y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd yn cynnwys:

- Adolygu cofnodion cyfarfodydd pwyllgorau a chynnal trafodaethau gyda rheolwyr, gan gynnwys ystyried achosion hysbys neu a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a thwyll;
- Defnyddio technegau archwilio cyfrifiadurol i nodi a phrofi dyddlyfrau llaw risg uwch, yn enwedig y rhai sydd â chyfuniadau cyfrifon anarferol;
- Adolygu priodoldeb y tybiaethau a ddefnyddir gan y Grŵp wrth amcangyfrif gwerth diffygion cynllun pensiwn buddion diffiniedig; a
- Chael cadarnhad trydydd parti o holl drefniadau bancio ac ariannu'r Grŵp.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn y gweithdrefnau archwilio a ddisgrifir uchod. Rydym yn llai tebygol o ddod yn ymwybodol o achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau nad ydynt yn gysylltiedig yn agos â digwyddiadau a thrafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol. Hefyd, mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiad sylweddol o ganlyniad i dwyll yn uwch na'r risg o beidio â chanfod un sy'n deillio o gamgymeriad, gan y gallai twyll gynnwys celu bwriadol trwy, er enghraifft, ffugio neu gamliwio bwriadol, neu drwy gydgyllwynio.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer yr archwiliad o ddatganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilwyr.

Defnyddio'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn, gan gynnwys y farn, wedi'i baratoi ar gyfer Corfforaeth y Coleg a'r Gorfforaeth honno yn unig fel corff yn unol ag Erthygl 18 o Erthyglau Llywodraethu'r Coleg ac nid at unrhyw ddiben arall. Nid ydym, wrth roi'r farn hon, yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw ddiben arall nac i unrhyw berson arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo neu y daw i'w ddwylo ac eithrio lle cytunir yn benodol drwy ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.

Adrodd Gofynnol Arall

Barn ar faterion eraill a ragnodir yng Nghod Ymarfer Archwilio Addysg Bellach 2015 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae arian a wariwyd o grantiau Llywodraeth Cymru a chronfeydd eraill o ba bynnag ffynhonnell a weinyddir gan y Coleg at ddibenion penodol wedi'i gymhwyso'n briodol at y dibenion hynny ac, os yw'n briodol, wedi'i reoli yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol; ac
- mae incwm wedi'i gymhwyso yn unol â'r memorandwm ariannol gyda Llywodraeth Cymru.



PricewaterhouseCoopers LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol
Caerdydd
[Dyddiad] 25 Ebrill 2024

Datganiadau Cyfunol a'r Coleg o Incwm Cynhwysfawr

	Nodyn	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023		Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2022	
		Grŵp	Coleg	Grŵp	Coleg
		£'000	£'000	£'000	£'000
INCWM					
Grantiau cyrff cyllido	2	57,739	57,739	57,599	57,599
Ffioedd dysgu a chontractau addysg	3	6,992	3,794	6,375	3,581
Grantiau a chontractau eraill	4	242	242	322	322
Incwm arall	5	5,556	3,904	5,480	3,782
Incwm buddsoddi	6	22	1	13	1
Cyfanswm incwm		70,551	65,680	69,789	65,285
GWARIANT					
Costau staff	7	40,846	37,284	39,333	36,370
Costau ailstrwythuro sylfaenol	7	4	2	26	-
Costau gweithredu eraill	8	30,198	30,645	29,490	28,301
Dibrisiant	11	3,234	2,797	2,959	2,561
Amorteiddiad	10	-	-	42	-
Llog a chostau Cyllid eraill	9	309	282	742	725
Cyfanswm gwariant		74,591	71,010	72,592	67,957
Diffyg cyn colledion ac enillion eraill		(4,040)	(5,330)	(2,803)	(2,672)
(Colled)/Enillion ar waredu asedau		(13)	-	31	31
Diffyg cyn treth		(4,053)	(5,330)	(2,772)	(2,641)
Trethiant		18	-	(6)	-
Diffyg am y flwyddyn		(4,035)	(5,330)	(2,778)	(2,641)
Treth ohiriedig ar ailbriso eiddo	18	(55)	-	55	-
Enillion actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn	22	19,385	19,385	32,927	32,927
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn		15,295	14,055	30,204	30,286
Wedi'u cynrychioli gan:					
Incwm cynhwysfawr anghyfyngedig		15,295	14,055	30,204	30,286


Datganiadau Cyfunol a'r Coleg o Newidiadau mewn Arian Wrth Gefn


	Cyfrif incwm a gwariant	Arian wrth gefn ailbrisiad	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000
Grŵp			
Balans ar 1 Awst 2021	(6,821)	4,902	(1,919)
Diffyg o'r cyfrif incwm a gwariant	(2,778)	-	(2,778)
Incwm cynhwysfawr arall	32,927	55	32,982
Trosglwyddiadau rhwng arian wrth gefn ailbrisiad ac incwm a gwariant	186	(186)	-
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	30,335	(131)	30,204
Balans ar 31 Gorffennaf 2022	23,514	4,771	28,285
Diffyg o'r cyfrif incwm a gwariant	(4,035)	-	(4,035)
Incwm cynhwysfawr arall	19,385	(55)	19,330
Trosglwyddiadau rhwng arian wrth gefn ailbrisiad ac incwm a gwariant	186	(186)	-
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	15,536	(241)	15,295
Balans ar 31 Gorffennaf 2023	39,050	4,530	43,580
Coleg			
Balans ar 1 Awst 2021	(5,660)	3,895	(1,765)
Diffyg o'r cyfrif incwm a gwariant	(2,641)	-	(2,641)
Incwm cynhwysfawr arall	32,927	-	32,927
Trosglwyddiadau rhwng arian wrth gefn ailbrisiad ac incwm a gwariant	186	(186)	-
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	30,472	(186)	30,286
Balans ar 31 Gorffennaf 2022	24,812	3,709	28,521
Diffyg o'r cyfrif incwm a gwariant	(5,330)	-	(5,330)
Incwm cynhwysfawr arall	19,385	-	19,385
Trosglwyddiadau rhwng arian wrth gefn ailbrisiad ac incwm a gwariant	186	(186)	-
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	14,241	(186)	14,055
Balans ar 31 Gorffennaf 2023	39,053	3,523	42,576

Mantolenni Cyfunol a'r Coleg ar 31 Gorffennaf 2023 31

	Nodyn	Grŵp 2023 £'000	Coleg 2023 £'000	Grŵp 2022 £'000	Coleg 2022 £'000
Asedau anghyfredol					
Asedau anniriaethol sefydlog	10	-	-	-	-
Asedau diriaethol sefydlog	11	51,445	44,677	50,605	43,659
Buddsoddiadau	12	-	4,533	-	5,472
Buddsoddi mewn Menter ar y Cyd	12	10	-	10	-
Gwarged Cynllun Pensiwn	18	13,370	13,370	-	-
		64,825	62,580	50,615	49,131
Asedau Cyfredol					
Stociau	13	373	363	350	340
Derbyniadau masnach a symiau derbyniadwy eraill	14	6,829	7,409	4,944	6,164
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	19	3,876	1,935	10,636	8,316
		11,078	9,707	15,930	14,820
Llai: Credydwy'r - symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	15	(15,847)	(14,460)	(15,258)	(13,795)
Asedau cyfredol / (rhwymedigaethau) net		(4,769)	(4,753)	672	1,025
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau presennol					
Credydwy'r - symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	16	(14,970)	(14,251)	(16,467)	(15,572)
Darpariaethau					
Rhwymedigaethau buddion diffiniedig	18	-	-	(4,910)	(4,910)
Darpariaethau eraill	18	(1,506)	(1,000)	(1,625)	(1,153)
Asedau net		43,580	42,576	28,285	28,521
Cronfeydd Wrth Gefn Anghyfyngedig					
Cyfrif incwm a gwariant		39,050	39,053	23,514	24,812
Arian wrth gefn ailbrisiad		4,530	3,523	4,771	3,709
Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig		43,580	42,576	28,285	28,521

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 29 i 52 ac awdurdodwyd eu cyhoeddi gan y Gorfforaeth ar 24 Ebrill 2024 ac fe'u llofnodwyd ar ei rhan ar y dyddiad hwnnw gan:

Llofnodwyd 
Rhobert Lewis, Cadeirydd y Gorfforaeth

Llofnodwyd 
Mark Dacey Prif Weithredwr

Datganiad Cyfunol o'r Llif Arian

Nodiadau	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023 £'000	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2022 £'000
Llif arian o weithgareddau gweithredol		
Diffyg am y flwyddyn	(4,035)	(2,778)
Addasiad ar gyfer eitemau nad ydynt yn arian parod		
Dibrisiant ac amorteiddiad	3,234	3,001
Cynnydd mewn stociau	(23)	(80)
Cynnydd mewn dyledwyr	(1,886)	(889)
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	(262)	723
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn credydwyr sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	(1,498)	2,223
Gostyngiad mewn darpariaethau	(34)	(247)
Costau pensiynau llai cyfraniadau taladwy	890	3,670
Trethiant	(56)	6
Cyfran o warged gweithredu mewn menter ar y cyd	(2)	(1)
Addasiad ar gyfer gweithgareddau buddsoddi neu ariannu		
Incwm buddsoddi	(20)	(12)
Llog yn daladwy	309	742
Colled/(Elw) ar werthu asedau sefydlog	13	(31)
Arian net (a ddefnyddiwyd mewn)/a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredu	(3,370)	6,327
Llif arian o weithgareddau ariannu		
Incwm buddsoddi	20	12
Elw o werthu asedau sefydlog	130	120
Grantiau cyfalaf newydd a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn	1,618	3,571
Taliadau a wnaed i gaffael asedau sefydlog	(4,211)	(5,859)
Arian parod net a ddefnyddiwyd mewn weithgareddau buddsoddi	(2,443)	(2,156)
Llif arian o ariannu gweithgareddau		
Llog a dalwyd	(125)	(113)
Elfen llog taliadau rhent prydles a ariannwyd	(54)	(57)
Ad-dalu symiau a fenthycwyd	(436)	(463)
Elfen gyfalaf taliadau rhent prydles a ariannwyd	(332)	(705)
Arian parod net a ddefnyddiwyd mewn weithgareddau ariannu	(947)	(1,338)
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian parod a chyferwerth ag arian parod yn y flwyddyn	(6,760)	2,833
Arian parod a chyferwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn	19	10,636
Arian parod a chyferwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn	19	3,876

Nodiadau i'r Cyfrifon

1. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu a thechnegau amcangyfrif

Mae'r polisiau cyfrifyddu canlynol wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r datganiadau ariannol.

Sail y paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi'n unol a gofynion y Datganiad o Arfer a Argymhellir - Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch (y SORP AB AU), y *Cyfarwyddyd Cyfrifon Colegau ar gyfer 2019 i 2020 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru* ac yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 – “*Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon*” (FRS 102). Mae'r Coleg yn endid budd cyhoeddus ac felly mae wedi cymhwyso gofynion budd cyhoeddus perthnasol FRS 102.

Mae paratoi datganiadau ariannol i gydymffurfio ag FRS 102 yn gofyn am ddefnyddio rhai amcangyfrifon cyfrifyddu critigol. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr arfer barn wrth gymhwyso polisiau cyfrifyddu'r Grŵp.

Sail y cyfrifyddu

Paratuir y datganiadau ariannol yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol.

Sail y cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys y Coleg a'i is-gwmnïau, sef Language Specialists (International) Limited, Parc Llandarcy Cyfyngedig, Mentrau Cymunedol Cwm Gwendraeth Cyfyngedig, Mentrau Coleg Castell-nedd Port Talbot Cyfyngedig a Green Inc (EU) Limited, a reolir gan y Grŵp. Cyflawnir rheolaeth lle mae gan y Grŵp y pŵer i lywodraethu polisiau ariannol a gweithredol endid er mwyn cael buddion o'i weithgareddau. Mae canlyniadau is-gwmnïau a gaffaelwyd neu a waredwyd yn ystod y cyfnod wedi'u cynnwys yn y datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr o'r dyddiad caffael neu hyd at y dyddiad gwaredu. Mae gwerthiannau ac elw o fewn y grŵp yn cael eu dileu'n llwyr wrth gyfuno. Yn unol ag FRS 102, nid yw gweithgareddau undeb y myfyrwyr wedi'u cyfuno oherwydd nad yw'r Coleg yn rheoli'r gweithgareddau hynny. Gwneir yr holl ddatganiadau ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2023. Mae cyfran y Grŵp o ganlyniadau cyd-fentrau wedi'i chynnwys yn y Datganiad Cyfunol o incwm cynhwysfawr gan ddefnyddio'r dull ecwiti o gyfrifo. Mae buddsoddiadau mewn mentrau ar y cyd yn cael eu cario yn y Fantolen Gyfunol ar gost ynghyd â newidiadau ôl-gaffael yng nghyfran y Grŵp o asedau net yr endid, llai unrhyw amhariad mewn gwerth.

Busnes gweithredol

Mae gweithgareddau'r Coleg a'r Grŵp, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad a'i berfformiad yn y dyfodol, wedi'u nodi yn Adroddiad y Corff Llywodraethu. Cyflwynir sefyllfa ariannol y Coleg a'r Grŵp, ei lif arian, hylifedd a benthyciadau yn y Datganiadau Ariannol a'r nodiadau cysylltiedig.

Ar hyn o bryd mae gan y Coleg a'r Grŵp £1.8 miliwn o fenthyciadau yn ddyledus gyda bancwyr.

Ar 31 Gorffennaf 2023, roedd gan y Grŵp a'r Coleg arian parod a chyfwerth ag arian parod o £3.9m, gostyngiad sylweddol o'i gymharu â £10.6m ar 31 Gorffennaf 2022. Mae canlyniadau'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023 wedi arwain at y Grŵp yn torri telerau cyfamad ar ei fenthyciad banc gyda Santander. Er y cafwyd hepgoriad gan Santander ar ôl diwedd y flwyddyn, mae benthyciad banc y Grŵp gyda Santander, sef cyfanswm o £1.0m ar 31 Gorffennaf 23 (£0.9m ar hyn o bryd ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol) yn ddyledus ar gais ac wedi'i ddatgelu fel rhwymedigaeth gyfredol.

Mae'r Grŵp a'r Coleg wedi paratoi rhagolygon llif arian sy'n ystyried lefelau disgwylidig grantiau'r Corff Ariannu yn ystod blwyddyn academaidd 2024/2025 ynghyd ag effaith mesurau sy'n cael eu cyflwyno ar draws y Grŵp i leihau gwariant gweithredu a chostau staff. Hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i setliad ariannu dwy flynedd ar gyfer 2023/24 a 2024/25, sy'n caniatáu i £2m o gyllid Dysgu Seiliedig ar Waith gael ei 'gario drosodd' i'r flwyddyn nesaf. Mae arbedion eisoes wedi'u gwneud i gostau gweithredu nad ydynt yn gyflogau ynghyd â gostyngiad ar gostau staff blynyddol.

Mae'r rhagolygon diweddaraf yn nodi y bydd angen rhywfaint o arian ychwanegol ar y Grŵp a'r Coleg o fewn 12 mis

o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol, a bydd yr amseriad a'r maint yn cael eu dylanwadu gan benderfyniadau'r Grŵp ynghylch yr is-gwmni Language Specialists (International) Limited. Mae nifer o opsiynau yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ynglŷn â dyfodol ei is-gwmni Language Specialists (International) Limited ac mae cynnig wedi'i dderbyn yn ddiweddar i waredu ei eiddo rhydd-ddaliadol yng nghanol Portsmouth o £3.5m.

Bydd ymarfer tendro yn cychwyn yn fuan gyda nifer o fanciau i gael cyfleuster benthyciad o £5m wedi'i warantu ar ystâd eiddo sy'n weddill y Grŵp. Mae'r Grŵp yn trafod gyda benthycwyr mewn perthynas â'r angen hwn. O ystyried lefel y benthyciadau banc dyledus (£1.8m ar 31 Gorffennaf 2023, £1.5m ar hyn o bryd) o gymharu â gwerth cario tir ac adeiladau (£44.4m ar gyfer y Grŵp, £39.0m ar gyfer y Coleg) y gellir ei ddefnyddio fel sicrwydd i sicrhau benthyciad yn ei erbyn, mae'r Gorfforaeth yn hyderus y bydd y lefel ychwanegol hon o gyllid yn cael ei chyflawni.

Os bydd ymdrechion i godi arian yn aflwyddiannus, bydd angen i'r Grŵp a'r Coleg gael ffynonellau cyllid neu gymorth ariannol eraill, nad ydynt wedi'u hymrwymo ar ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol, er mwyn gallu parhau i fodloni eu rhwymedigaethau ariannol fel busnes gweithredol. O ganlyniad, mae'r Gorfforaeth o'r farn bod ansicrwydd perthnasol a allai achosi cryn amheuaeth ynghylch gallu'r Grŵp a'r Coleg i barhau fel busnes gweithredol. Nid yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw addasiadau y byddai eu hangen pe na bai'r Grŵp a'r Coleg yn gallu parhau fel busnes gweithredol.

Cydnabod incwm

Mae grantiau refeniw'r Llywodraeth yn cynnwys grantiau rheolaidd cyrff cyllido a grantiau eraill a rhoddir cyfrif amdanynt o dan y model cronni a ganiateir gan FRS 102. Mesurir grantiau rheolaidd cyrff cyllido yn unol â'r amcangyfrifon gorau ar gyfer cyfnod yr hyn sy'n dderbyniadwy ac maent yn dibynnu ar y ffrwd incwm benodol dan sylw. Caiff unrhyw dangyflawni ei addasu a'i adlewyrchu yn lefel y grant rheolaidd a gydnabyddir yn y cyfrif incwm a gwariant.

Mae grantiau o ffynonellau anllywodraethol yn cael eu cydnabod mewn incwm pan fydd gan y Grŵp hawl i'r incwm a phan fydd amodau cysylltiedig â pherfformiad wedi'u bodloni. Mae incwm a dderbynnir cyn bodloni amodau cysylltiedig â pherfformiad yn cael ei gydnabod fel incwm gohiriedig o fewn credydwyr ar y fantolen a'i ryddhau i incwm wrth i'r amodau gael eu bodloni.

Mae grantiau cyfalaf y Llywodraeth yn cael eu cyfalafu, eu dal fel incwm gohiriedig a'u cydnabod mewn incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased, o dan y dull cronni a ganiateir gan FRS 102. Mae grantiau cyfalaf eraill yn cael eu cydnabod mewn incwm pan fydd gan y Grŵp hawl i'r cronfeydd yn amodol ar fodloni unrhyw amodau sy'n ymwneud â pherfformiad.

Cydnabyddir incwm o ffioedd dysgu yn y cyfnod y'i derbynnir ac mae'n cynnwys yr holl ffioedd sy'n daladwy gan fyfyrwyr neu eu noddwyr. Pan fo swm y ffioedd dysgu yn cael ei leihau, drwy ddisgownt am daliad prydlon, dangosir yr incwm sy'n dderbyniadwy heb ddisgownt. Rhoddir cyfrif am fwrsariaethau ac ysgoloriaethau gros fel gwariant ac nid ydynt yn cael eu tynnu o'r incwm.

Mae incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau yn cael ei gredydu i'r datganiad o incwm cyfunol pan fydd y nwyddau neu'r gwasanaethau'n cael eu cyflenwi i'r cwsmeriaid allanol, neu pan fo telerau'r contract wedi'u bodloni.

Mae'r holl incwm o adneuron tymor byr yn cael ei gredydu i'r datganiad o incwm cyfunol yn y cyfnod y'i enillir.

Rhoddir cyfrif am gymorth rhodd ar sail dderbyniadwy.

Mae pob incwm yn codi yn y DU.

Cyfrifo ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth

Darperir buddion ôl-gyflogaeth i gyflogeion y Coleg yn bennaf gan y Cynllun Pensiwn Athrawon (CPA) a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL). Mae'r rhain yn gynlluniau buddion diffiniedig, sy'n cael eu hariannu'n allanol a'u contractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth.

Mae'r CPA yn gynllun heb ei ariannu. Mae cyfraniadau i'r CPA yn cael eu cyfrifo i wasgaru cost pensiynau dros fywydau gwaith cyflogeion gyda'r Coleg yn y fath fodd fel bod cost y pensiwn yn ganran sylweddol wastad o'r gyflogres bensiynadwy yn awr ac yn y dyfodol. Pennir y cyfraniadau gan actiwariaid cymwys yn seiliedig ar brisiadau gan ddefnyddio dull buddion arfaethedig. Mae'r CPA yn gynllun aml-gyflogwr, ac nid yw'r Coleg yn gallu nodi ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun ar sail gyson a rhesymol. Mae'r CPA felly'n cael ei drin fel cynllun

cyfraniadau diffiniedig a'r cyfraniadau'n cael eu cydnabod fel traul yn y datganiad incwm yn ystod y cyfnodau pan fydd cyflogeion yn darparu gwasanaethau.

Mae'r CPLIL yn gynllun a ariennir. Mesurir asedau'r CPLIL gan ddefnyddio gwerthoedd teg terfynol. Mae rhwymedigaethau CPLIL yn cael eu mesur gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanol a'u disgowntio ar y gyfradd adennill gyfredol ar fond corfforaethol o ansawdd uchel sy'n cyfateb i dymor ac arian cyfred i'r rhwymedigaethau. Ceir y prisiau actiwaraid bob tair blynedd o leiaf a chânt eu diweddarau ar ddyddiad pob mantolen. Y symiau a godir ar warged gweithredu yw'r costau gwasanaeth presennol a chostau cyflwyno'r cynllun, newidiadau i fudd-daliadau, setliadau a chwtogiadau. Cânt eu cynnwys fel rhan o gostau staff wrth iddynt godi. Mae llog net ar yr ymrwymiad/ased buddion diffiniedig net hefyd yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr ac mae'n cynnwys y gost llog ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig ac incwm llog ar asedau'r cynllun, wedi'i gyfrifo drwy luosi gwerth teg asedau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod gan y gyfradd a ddefnyddir i ddisgowntio rhwymedigaethau'r budd-dal. Mae'r gwahaniaeth rhwng yr incwm llog ar asedau'r cynllun a'r enillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun yn cael ei gydnabod mewn incwm cynhwysfawr arall.

Mae enillion a cholledion actiwaraid yn cael eu cydnabod ar unwaith yn y datganiad incwm cynhwysfawr.

Buddion cyflogaeth tymor byr

Mae buddion cyflogaeth tymor byr megis cyflogau ac absenoldebau a ddoglledwyd (tâl gwyliau) yn cael eu cydnabod fel traul yn y flwyddyn y mae'r cyflogeion yn rhoi gwasanaeth i'r Grŵp. Mae unrhyw fuddion nas defnyddiwyd yn cael eu cronni a'u mesur fel y swm ychwanegol y mae'r Grŵp yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i'r hawl heb ei ddefnyddio.

Pensiynau Uwch

Telir gwir gost unrhyw bensiwn parhaus uwch i gyn aelod o staff gan Goleg yn flynyddol. Mae amcangyfrif o gost ddisgwyliedig unrhyw ychwanegiad i bensiwn parhaus cyn aelod o staff yn y dyfodol yn cael ei godi'n llawn ar incwm y Grŵp yn y flwyddyn y mae'r aelod o staff yn ymddeol. Mewn blynyddoedd dilynol, codir tâl ar ddarpariaethau yn y fantolen gan ddefnyddio'r daenlen pensiwn uwch a ddarperir gan y cyrff ariannu.

Asedau Anghyfredol - Asedau sefydlog diriaethol

Caiff asedau sefydlog diriaethol eu datgan ar gost/cost dybiedig llai dibrisiant cronedig a cholledion amhariad cronedig.

Tir ac adeiladau

Mae adeiladau rhydd-ddaliadol yn cael eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

- Adeiladau Rhydd-ddaliadol – 50 mlynedd
- Adnewyddiadau – 10 mlynedd

Nid yw tir rhydd-ddaliad yn cael ei ddibrisio.

Lle caffaelir tir ac adeiladau gyda chymorth grantiau penodol, cânt eu cyfalafu a'u dibrisio fel yr uchod. Mae'r grantiau cysylltiedig yn cael eu credydu i gyfrif incwm gohiriedig o fewn credydwy'r ac yn cael eu rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased cysylltiedig ar sail systematig sy'n gyson â'r polisi dibrisiant. Dyrennir yr incwm gohiriedig rhwng credydwy'r sy'n ddyledus o fewn blwyddyn a'r rhai sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

Cynhelir adolygiad o amhariad ar ased sefydlog os yw digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn awgrymu efallai na fydd modd adennill swm cario unrhyw ased sefydlog.

Ar ôl mabwysiadu FRS 102, dilynodd y Grŵp y ddarpariaeth drosiannol i gadw gwerth llyfr tir ac adeiladau, a gafodd eu hailbriso ym 1993, fel cost dybiedig ond nid i fabwysiadu polisi o ailbriso'r eiddo hyn yn y dyfodol.

Gwariant dilynol ar asedau sefydlog presennol

Lle ceir gwariant sylweddol ar asedau sefydlog diriaethol ar ôl y pryniant cychwynol caiff ei godi ar incwm yn y cyfnod yr eir iddo, oni bai ei fod yn cynyddu buddion y dyfodol i'r Grŵp, ac os felly caiff ei gyfalafu a'i ddibrisio ar y sail berthnasol.

Cyfarpar

Mae cyfarpar sy'n costio llai na £500 fesul eitem unigol yn cael ei gydnabod fel gwariant yn y cyfnod caffael. Mae pob

offer arall yn cael ei gyfalafu ar gost.

Mae offer wedi'i gyfalafu yn cael ei ddibrisio ar sail llinell syth dros weddill ei oes economaidd ddefnyddiol fel a ganlyn:

- Offer a chyfarpar 6 mlynedd
- cerbydau modur 5 mlynedd
- offer cyfrifiadurol a swyddfa 5 mlynedd
- offer fferm 10 mlynedd
- offer diagnostig 10 mlynedd

Asedau anniriaethol ac ewyllys da

Mae ewyllys da sy'n codi wrth gyfuno'n cynrychioli'r hyn sydd dros ben yng nghost caffael dros fuddiant y Grŵp yng ngwerth teg asedau a rhwymedigaethau adnabyddadwy'r endid a gaffaelwyd ar ddyddiad y caffaeliad. Caiff ewyllys da ei amortio ar sail llinell syth dros ei oes ddefnyddiol amcangyfrifedig o 10 mlynedd. Mae'r oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yn seiliedig ar y cyfnod y disgwylir i'r grŵp gael buddion economaidd o'r asedau.

Amhariad ar asedau anariannol

Ar ddyddiad pob mantolen, asesir asedau anariannol nad ydynt yn cael eu cario ar werth teg i benderfynu a oes arwydd y gallai'r ased (neu uned cynhyrchu arian yr ased) fod wedi'i amharu. Os oes arwydd o'r fath mae swm adferadwy'r ased (neu uned cynhyrchu arian yr ased) yn cael ei gymharu â swm cario'r ased (neu uned cynhyrchu arian yr ased).

Swm adferadwy'r ased (neu uned cynhyrchu arian yr ased) yw'r uchaf o'r gwerth teg llai costau gwerthu a gwerth mewn defnydd. Diffinnir gwerth mewn defnydd fel gwerth presennol llif arian yn y dyfodol cyn llog a threth y gellir ei gael o ganlyniad i ddefnydd parhaus yr asedau (neu uned cynhyrchu arian yr ased). Mae'r llifoedd arian hyn yn cael eu disgowntio gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt cyn treth sy'n cynrychioli cyfradd rhydd o risg y farchnad gyfredol a'r risgiau sy'n gynhenid i'r ased.

Os amcangyfrifir bod swm adferadwy'r ased (neu uned cynhyrchu arian yr ased) yn is na'r swm cario, gostyngir y swm cario i fod yn swm adenilladwy. Cydnabyddir colled amhariad yn y datganiad incwm cynhwysfawr.

Os caiff colled amhariad ei gwrthdroi wedyn, cynyddir swm cario'r ased (neu uned cynhyrchu arian yr ased) i'r amcangyfrif diwygiedig o'i swm adferadwy ond dim ond i'r graddau nad yw'r swm cario diwygiedig yn fwy na'r swm cario a fyddai wedi'i benderfynu (yn glir o ddibrisiant neu amortio) oni bai bod unrhyw golled amhariad wedi'i chydabod mewn cyfnodau blaenorol. Mae gwrthdroad colled amhariad yn cael ei gydnabod yn y datganiad incwm cynhwysfawr.

Costau benthyca

Mae costau benthyca yn cael eu cydnabod fel gwariant yn y cyfnod yr eir iddynt.

Asedau ar brydles

Codir costau mewn perthynas â phrydlesi gweithredol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Mae unrhyw breimiau neu gymhellion pryddles sy'n ymwneud â phrydlesi a lofnodwyd ar ôl 1^{af} Awst 2014 yn cael eu lledaenu dros gyfnod lleiaf y brydles.

Mae cytundebau pryddlesu sy'n trosglwyddo'n sylweddol i'r Grŵp holl fuddion a risgiau perchnogaeth ased yn cael eu trin fel pryddlesi Cyllid.

Mae asedau a ddelir o dan bryddlesi Cyllid yn cael eu cydnabod i ddechrau ar werth teg yr ased ar bryddles (neu, os yw'n is, gwerth presennol isafswm taliadau pryddles) ar ddechrau'r bryddles. Mae'r rhwymedigaeth gyfatebol i'r pryddleswr wedi'i chynnwys yn y fantolen fel rhwymedigaeth pryddles Ariannol. Mae asedau a ddelir o dan bryddlesi Cyllid yn cael eu cynnwys mewn asedau sefydlog diriaethol a'u dibrisio a'u hasesu ar gyfer colledion amhariad yn yr un modd ag asedau a berchnogir.

Mae isafswm taliadau pryddles yn cael eu dosrannu rhwng y tâl Cyllid a'r gostyngiad yn y rhwymedigaeth sy'n weddill. Dyrennir y taliadau Cyllid dros gyfnod y bryddles yn gymesur â'r elfen gyfalaf sy'n weddill.

Buddsoddiadau

Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau

Rhoddir cyfrif am fuddsoddiadau mewn is-gwmnïau ar gost llai amhariad yn y datganiadau ariannol unigol.

Buddsoddiadau mewn menter ar y cyd

Mae'r Coleg yn cyfrif am ei gyfran o'r fenter ar y cyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti. Mae'r Coleg yn cyfrif am ei gyfran o drafodion o weithrediadau ar y cyd ac asedau a reolir ar y cyd yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

Rhestrau eiddo

Nodir rhestrau eiddo ar yr isaf o'u cost a'u gwerth gwireddadwy net, sef pris gwerthu llai costau i'w cwblhau a'u gwerthu. Amcangyfrifir cost stoc fferm ar werth gwireddadwy net llai 15% yn unol ag arfer prisio amaethyddol derbyniol. Lle bo angen, gwneir darpariaeth ar gyfer eitemau darfodedig, araf eu symud a diffygiol.

Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, adneuon i'w had-dalu ar gais a gorddrafftiau. Mae adneuon yn addaladwy ar gais os ydynt ar gael yn ymarferol o fewn 24 awr heb gosb.

Mae symiau cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau hynod hylifol tymor byr y gellir eu trosi'n hawdd i symiau hysbys o arian parod gyda risg ansylweddol o newid mewn gwerth. Mae buddsoddiad yn gymwys fel swm cyfwerth ag arian parod pan fydd yn aeddfedu ymhen 3 mis neu lai o'r dyddiad caffael.

Rhwymedigaethau ariannol ac ecwiti

Dosberthir rhwymedigaethau ariannol ac ecwiti yn ôl sylwedd rhwymedigaethau cytundebol yr offeryn ariannol, yn hytrach na ffurf gyfreithiol yr offeryn ariannol.

Mae pob benthyciad, buddsoddiad ac adnau tymor byr a ddelir gan y Grŵp yn cael eu dosbarthu fel offerynnau ariannol sylfaenol yn unol â FRS 102. Mae'r offerynnau hyn yn cael eu cofnodi i ddechrau ar bris y trafodiad llai unrhyw gostau trafod (cost hanesyddol). Mae FRS 102 yn ei gwneud yn ofynnol i offerynnau ariannol sylfaenol gael eu mesur wedyn ar gost amorteiddiedig, fodd bynnag mae'r Grŵp wedi cyfrifo nad yw'r gwahaniaeth rhwng y gost hanesyddol a'r sail cost amorteiddiedig yn berthnasol ac felly mae'r offerynnau ariannol hyn wedi'u datgan ar y fantolen yn ôl cost hanesyddol. Nid yw benthyciadau a buddsoddiadau sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy o fewn blwyddyn yn cael eu disgowntio.

Trosi arian tramor

Cofnodir trafodion mewn arian tramor gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodiad. Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol mewn arian tramor yn cael eu trosi ar y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddiwedd y cyfnod ariannol gyda'r holl wahaniaethau cyfnewid dilynol yn cael eu cymryd i incwm yn y cyfnod y maent yn codi.

Trethiant

Mae'r Grŵp wedi'i eithrio o bosibl rhag trethiant mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a dderbyniwyd o fewn categorïau a gwmpesir gan adrannau 478-488 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010 neu Adran 256 o Ddeddf Trethu Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y mae incwm neu enillion o'r fath yn berthnasol i ddiobenion elusennol yn unig.

Mae'r Grŵp wedi'i eithrio'n rhannol o ran Treth Ar Werth, fel mai dim ond cyfran o'r TAW a godwyd ar ei fewnbynau y gall adennill. Mae TAW anadferadwy ar fewnbynau wedi'i chynnwys yng nghostau mewnbynau o'r fath a'i hychwanegu at gost asedau sefydlog diriaethol fel y bo'n briodol, lle mae'r mewnbynau eu hunain yn asedau sefydlog diriaethol eu natur. Mae is-gwmnïau'r Grŵp yn agored i dreth gorfforaeth a TAW yn yr un modd ag unrhyw sefydliad masnachol.

Darpariaethau a rhwymedigaethau wrth gefn

Cydnabyddir darpariaethau pan fo gan y Grŵp rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol, mae'n debygol y bydd angen trosglwyddo budd economaidd i setlo'r rhwymedigaeth a gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Pan fo effaith gwerth amser arian yn berthnasol, mae'r swm y disgwylir y bydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth yn cael ei gydnabod ar y gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt cyn treth. Mae dad-ddirwyn y disgownt yn cael ei gydnabod fel cost Cyllid yn y datganiad o incwm cynhwysfawr yn y cyfnod y mae'n codi.

Mae rhwymedigaeth dibynnol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i'r Grŵp y bydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Grŵp. Mae rhwymedigaethau wrth gefn hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu na ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Nid yw rhwymedigaethau wrth gefn yn cael eu cydnabod yn y fantolen ond maent yn cael eu datgelu yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Trefniadau asiantaeth

Mae'r Coleg yn gweithredu fel asiant wrth gasglu a thalu arian cymorth disgrisiynol. Mae taliadau cysylltiedig a geir gan y cyrff cyllido a thaliadau dilynol i fyfyrwyr wedi'u heithrio o incwm a gwariant y Coleg lle mae'r Coleg yn agored i risg fach iawn neu'n cael y budd economaidd lleiaf sy'n gysylltiedig â'r trafodiad.

Barn wrth gymhwyso polisiâu cyfrifyddu a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'r rheolwyr wedi dod i farn fel a ganlyn:

- Penderfynu a yw prydlesi yr ymrwymwyd iddynt gan y Grŵp naill ai fel prydleswr neu brydlesai yn brydlesau gweithredu neu Gyllid. Mae'r penderfyniadau hyn yn dibynnu ar asesiad i weld a yw risgiau ac elw perchnogaeth wedi'u trosglwyddo o'r prydleswr i'r prydlesai ar sail prydlesi unigol.
- Penderfynu a oes dangosyddion o amhariad ar asedau diriaethol y grŵp, gan gynnwys ewyllys da. Mae'r ffactorau a ystyriwyd wrth ddod i benderfyniad o'r fath yn cynnwys hyfywedd economaidd a pherfformiad ariannol disgwyltiedig yr ased yn y dyfodol a lle mae'n elfen o uned cynhyrchu arian mwy, hyfywedd a pherfformiad disgwyltiedig yr uned honno yn y dyfodol.

Ffynonellau allweddol eraill o ansicrwydd amcangyfrif

- *Asedau diriaethol sefydlog*

Mae asedau sefydlog diriaethol yn cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol gan ystyried gwerthoedd gweddilliol, lle bo'n briodol. Asesir oes gwirioneddol yr asedau a'r gwerthoedd gweddilliol yn flynyddol a gallant amrywio yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Wrth ailasesu oes asedau, mae ffactorau megis arloesi technolegol a rhaglenni cynnal a chadw yn cael eu hystyried. Mae asesiadau gwerth gweddilliol yn ystyried materion megis amodau'r farchnad yn y dyfodol, gweddill oes yr ased a'r gwerthoedd gwaredu a ragwelir.

- *Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol*

Mae gwerth presennol rhwymedigaeth buddion diffiniedig y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn dibynnu ar nifer o ffactorau a bennir ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio amrywiaeth o dybiaethau. Mae'r tybiaethau a ddefnyddiwyd i bennu'r gost net (incwm) ar gyfer pensiynau yn cynnwys y gyfradd ddisgownt. Bydd unrhyw newidiadau yn y tybiaethau hyn, a ddatgelir yn nodyn 22, yn effeithio ar swm cario'r rhwymedigaeth bensiwn. At hynny, mae'r actiwari wedi defnyddio dull treigl ymlaen sy'n rhagamcanu canlyniadau o'r prisiad actiwaraidd llawn diweddaraf a gyflawnwyd ar 31 Mawrth 2022 i brisio'r gwarged pensiynau ar 31 Gorffennaf 2023. Byddai unrhyw wahaniaethau rhwng y ffigurau sy'n deillio o'r dull treigl ymlaen a phrasiad actiwaraidd llawn yn effeithio ar swm cario'r rhwymedigaeth bensiwn.

Grŵp Colegau NPTC

2	Grantiau cyrff cyllido	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023		Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2022	
		Grŵp £'000	Coleg £'000	Grŵp £'000	Coleg £'000
Grantiau rheolaidd Llywodraeth Cymru					
	Grant cyllid AB	31,440	31,440	28,305	28,305
	Dysgu Seiliedig ar Waith (Nodyn 2a)	16,083	16,083	18,943	18,943
Grantiau penodol					
	Rhyddhau grantiau cyfalaf y llywodraeth	1,482	1,482	1,188	1,188
	Grantiau penodol eraill	8,734	8,734	9,163	9,163
Cyfanswm		57,739	57,739	57,599	57,599

Mewn perthynas â chyflwyno Dysgu Seiliedig ar Waith, y Coleg yw deiliad y contract sy'n darparu ar sail is-gontractiwr prif gontractwr.

2a	Incwm Dysgu Seiliedig ar Waith	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023		Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2022	
		Grŵp £'000	Coleg £'000	Grŵp £'000	Coleg £'000
	Cyfanswm incwm	16,083	16,083	18,943	18,943
Cyfanswm		16,083	16,083	18,943	18,943

3	Ffioedd dysgu a chontractau addysg	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023		Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2022	
		Grŵp £'000	Coleg £'000	Grŵp £'000	Coleg £'000
	Ffioedd dysgu	2,950	2,950	2,580	2,580
	Cyrsiau adennill costau	57	57	107	107
	Ffioedd arholiadau	14	14	9	9
	Ffioedd cofrestru	1	1	34	6
	Ffioedd myfyrwyr rhyngwladol	2,133	82	1,488	-
	Cyfanswm y ffioedd dysgu	5,155	3,104	4,218	2,702
	Contractau addysg	1,837	690	2,157	879
Cyfanswm		6,992	3,794	6,375	3,581

4	Grantiau a chontractau eraill	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023		Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2022	
		Grŵp £'000	Coleg £'000	Grŵp £'000	Coleg £'000
	Comisiwn Ewropeaidd	242	242	322	322

Grŵp Colegau NPTC

Cyfan

<u>242</u>	<u>242</u>	<u>322</u>	<u>322</u>
------------	------------	------------	------------

Grŵp Colegau NPTC

5 Incwm arall	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf		Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf	
	2023	2023	2022	2022
	Grŵp	Coleg	Grŵp	Coleg
	£'000	£'000	£'000	£'000
Arlwyo a phreswylfeydd	1,422	931	1,180	684
Gweithgareddau eraill sy'n cynhyrchu incwm	3,688	2,702	3,871	2,682
Incwm grant arall	369	194	352	339
Grantiau cyfalaf anllywodraethol	77	77	77	77
Cyfanswm	5,556	3,904	5,480	3,782

6 Incwm buddsoddi	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf		Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf	
	2023	2023	2022	2022
	Grŵp	Coleg	Grŵp	Coleg
	£'000	£'000	£'000	£'000
Llog arall sy'n dderbyniadwy	2	1	1	1
Canlyniad cyfran y Fenter ar y Cyd	20	-	12	-
Cyfanswm	22	1	13	1

7 Costau staff

Nifer cyfartalog y bobl (gan gynnwys personél rheoli allweddol) a gyflogwyd gan y Grŵp a'r Coleg yn ystod y flwyddyn oedd:

	2023	2023	2022	2022
	Grŵp	Coleg	Grŵp	Coleg
	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer
Staff addysgu	542	542	528	528
Staff nad ydynt yn addysgu	496	333	491	343
Cyfanswm	1,038	875	1,019	871

Grŵp Colegau NPTC

Costau staff ar gyfer y personau uchod	2023	2023	2022	2022
	Grŵp	Coleg	Grŵp	Coleg
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyflogau	30,160	26,949	26,602	23,933
Costau nawdd cymdeithasol	2,980	2,711	2,669	2,442
Costau pensiwn eraill (Nodyn 22)	6,814	6,735	8,944	8,875
Is-gyfanswm cyfloges	39,954	36,395	38,215	35,250
Gwasanaethau staffio wedi'u contractio allan	892	889	1,118	1,120
	40,846	37,284	39,333	36,370
Costau ailstrwythuro sylfaenol – heb fod yn Gontractau	4	2	26	-
Cyfanswm costau staff	40,850	37,286	39,359	36,370

Personél rheoli allweddol

Personél rheoli allweddol yw'r bobl hynny sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb am gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r Grŵp a'r Coleg ac a gynrychiolir gan y Tîm Rheoli Gweithredol a oedd yn cynnwys yn 2022/23 y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr, yr Is-Bennaeth: Gwasanaethau Academaidd, yr Is-bennaeth: Gwasanaethau Ariannol, yr Is-bennaeth: Gwasanaethau Gweithredol a'r Is-bennaeth: Cysylltiadau Allanol.

Tâl i bersonél rheoli allweddol, y Swyddog Cyfrifyddu a staff eraill ar gyflogau uwch

	2023	2022
	Nifer	Nifer
Nifer y personél rheoli allweddol gan gynnwys y Swyddog Cyfrifyddu oedd:	<u>6</u>	<u>6</u>

Nifer y personél rheoli allweddol a staff eraill a dderbyniodd daliadau blynyddol, heb gynnwys cyfraniadau pensiwn ond yn cynnwys buddion mewn nwyddau, yn yr ystodau canlynol oedd:

	Personél rheoli allweddol		Staff eraill	
	2023	2022	2023	2022
	CALI	CALI	CALI	CALI
£60,001 i £65,000 y flwyddyn	-	-	8.0	-
£65,001 to £70,000 y flwyddyn	-	-	1.0	6.4
£70,001 to £75,000 y flwyddyn	-	-	5.0	-
£75,001 to £80,000 y flwyddyn	-	-	-	-
£80,001 i £85,000 y flwyddyn	-	-	-	-
£85,001 i £90,000 y flwyddyn	-	-	1.0	-
£90,001 i £95,000 y flwyddyn	-	3.6	-	-
£95,001 i £100,000 y flwyddyn	-	1.0	-	-
£100,001 i £105,000 y flwyddyn	3.6	-	-	-
£105,001 i £110,000 y flwyddyn	-	-	-	-
£140,001 i £145,000 y flwyddyn	1.0	-	-	-
£155,001 i £160,000 y flwyddyn	-	1.0	-	-
£170,001 i £175,000 y flwyddyn	1.0	-	-	-
	<u>5.6</u>	<u>5.6</u>	<u>15.0</u>	<u>6.4</u>

Grŵp Colegau NPTC

Mae taliadau personél rheoli allweddol wedi'u cynnwys fel a ganlyn:

	2023	2022
	£'000	£'000
Cyflogau	686	601
Buddion mewn nwyddau	-	-
	686	601
Cyfraniadau pensiwn	152	134
	838	735
Cyfanswm taliadau	838	735

Nid oedd unrhyw symiau yn ddyledus i bersonél rheoli allweddol a gafodd eu hepgor yn ystod y flwyddyn, ac nid oedd unrhyw drefniadau aberthu cyflog ar waith.

Mae'r taliadau uchod yn cynnwys symiau sy'n daladwy i'r Swyddog Cyfrifyddu (sydd hefyd yn swyddog ar y cyflog uchaf) o:

	2023	2022
	£	£
Cyflogau	172	160
Buddion mewn nwyddau	-	-
	172	160
Cyfraniadau pensiwn	41	38
	41	38

Mae pecyn tâl y Pennaeth a'r Prif Weithredwr yn destun adolygiad blynyddol gan Bwyllgor Cadeiryddion y Corff Llywodraethu, sy'n defnyddio gwybodaeth feincnodi i ddarparu arweiniad gwrthrychol. Mae Pwyllgor y Cadeiryddion yn asesu perfformiad y Gorfforaeth yn erbyn nodau ac amcanion strategol a sefyllfa ariannol y Coleg, wrth adolygu pecyn cydnabyddiaeth y Pennaeth a'r Prif Weithredwr. Mae lefel y tâl yn cael ei feincnodi yn erbyn tâl colegau o faint tebyg yn y flwyddyn ariannol flaenorol, o'u datganiadau ariannol, ac mae'r duedd gyffredinol o fewn y sector hefyd yn cael ei hystyried. Ni chafodd aelodau'r Gorfforaeth ac eithrio'r Swyddog Cyfrifyddu ac aelodau'r staff unrhyw daliad gan y sefydliad heblaw am ad-daliad costau teithio a chynhaliadau yr aethpwyd iddynt yn ystod eu dyletswyddau.

Perthynas tâl a chydabyddiaeth y Pennaeth / Prif Weithredwr wedi'i fynegi fel lluosrif

	2023	2022
	£	£
Cyflog sylfaenol y Pennaeth a'r Prif Weithredwr fel lluosrif o ganolrif yr holl staff *	5.81	5.50
Cyfanswm tâl y Pennaeth a'r Prif Weithredwr fel lluosrif o ganolrif yr holl staff #	5.83	5.81

* Cyflog sylfaenol y Pennaeth wedi'i rannu â chyflog sylfaenol canolrif holl gyflogeion eraill y Coleg (pob un ar sail cyfwerth ag amser llawn). # Cyfanswm taliadau'r Pennaeth wedi'i rannu â chyflog sylfaenol canolrif holl gyflogeion eraill y Coleg (pob un ar sail cyfwerth ag amser llawn).

Yn y cyfrifiadau hyn, cyfunwyd cyflog misol CALI yr holl gyflogeion a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr yn gyflog CALI blynyddol (gyda chyfraniadau pensiwn y cyflogwr a hebddynt), wedi'u didoli yn ôl swm a'r canolrif a ganfuwyd. Cafodd gweithwyr asiantaeth a dalwyd drwy anfoneb eu heithrio o'r cyfrifiad hwn.

8 Costau gweithredu eraill

	2023	2023	2022	2022
	Grŵp	Coleg	Grŵp	Coleg
	£'000	£'000	£'000	£'000
Costau addysgu	15,156	16,339	16,207	17,489
Costau nad ydynt yn rhai addysgu	9,746	9,695	8,835	6,998
Costau adeiladau	5,296	4,611	4,448	3,814
Cyfan swm	30,198	30,645	29,490	28,301

Mae costau gweithredu eraill yn cynnwys:

	2023	2022
	£'000	£'000
Archwilwyr allanol - archwiliad o'r Coleg	61	35
Archwilwyr allanol - archwiliad o'r is-gwmnïau	63	38
Archwilwyr allanol - gwasanaethau rheoleiddio	16	13
Archwilwyr allanol - gwasanaethau trethiant	20	23
Archwilwyr allanol - gwasanaethau eraill	7	9
Archwiliad mewnol	48	53
Llogi asedau o dan brydlesi gweithredu	<u>120</u>	<u>164</u>

9 Llog a chostau Cyllid eraill

	2023	2023	2022	2022
	Grŵp	Coleg	Grŵp	Coleg
	£'000	£'000	£'000	£'000
Ar fenthyciadau banc, gorddrafftiau a benthyciadau eraill:	<u>87</u>	<u>86</u>	113	103
	87	86	113	103
Darpariaeth pensiwn uwch	54	28	22	22
Ar brydlesi cyllid	38	38	57	50
Costau cyllid pensiwn (Nodyn 22)	130	130	550	550
Cyfan swm	309	282	742	725

10 Asedau anniriaethol sefydlog

Grŵp a'r Coleg	Ewyllys da
Cost	£'000
Ar 1 Awst 2022	4,082
Ar 31 Gorffennaf 2023	4,082
Amortiddiad cronodig	
Ar 1 Awst 2022	4,082
Ar 31 Gorffennaf 2023	4,082
Gwerth llyfr net ar 31 Gorffennaf 2023	-
Gwerth llyfr net ar 31 Gorffennaf 2022	-

Grŵp Colegau NPTC

11	(a)	Asedau diriaethol sefydlog (Grŵp)				
		Tir	Adeiladau	Cyfarpar	Asedau yn cael eu hadeiladu	Cyfanswm
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost neu brisiad						
Ar 1 Awst 2022		5,766	70,214	15,556	1,427	92,963
Trosglwyddo		-	433	60	(493)	-
Ychwanegiadau		-	1,721	915	1,583	4,219
Gwarediadau		(130)	(25)	(200)	-	(355)
Ar 31 Gorffennaf 2023		5,636	72,343	16,331	2,517	96,827
Dibrisiant cronodig						
Ar 1 Awst 2022		-	31,736	10,622	-	42,358
Tâl am y flwyddyn		-	1,908	1,326	-	3,234
Dileu o ran gwarediadau		-	(12)	(198)	-	(210)
Ar 31 Gorffennaf 2023		-	33,632	11,750	-	45,382
Gwerth llyfr net ar 31 Gorffennaf 2023		5,636	38,711	4,581	2,517	51,445
Gwerth llyfr net ar 31 Gorffennaf 2022		5,766	38,478	4,934	1,427	50,605

	(b)	Asedau diriaethol sefydlog (Coleg yn unig)				
		Tir	Adeiladau	Cyfarpar	Asedau yn cael eu hadeiladu	Cyfanswm
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost neu brisiad						
Ar 1 Awst 2022		5,766	62,971	13,533	1,392	83,662
Trosglwyddiad		-	433	60	(493)	-
Ychwanegiadau		-	1,640	800	1,505	3,945
Gwarediadau		(130)	-	(191)	-	(321)
Ar 31 Gorffennaf 2023		5,636	65,044	14,202	2,404	87,286
Dibrisiant cronodig						
Ar 1 Awst 2022		-	29,953	10,050	-	40,003
Tâl am y flwyddyn		-	1,690	1,107	-	2,797
Cael ei ddileu mewn perthynas â gwarediadau		-	-	(191)	-	(191)
Ar 31 Gorffennaf 2023		-	31,643	10,966	-	42,609
Gwerth llyfr net ar 31 Gorffennaf 2023		5,636	33,401	3,236	2,404	44,677
Gwerth llyfr net ar 31 Gorffennaf 2022		5,766	33,018	3,483	1,392	43,659

Cafodd tir ac adeiladau eu priso yn 2013 ar gost adnewyddu wedi'i dibrisio gan gwmni o syrfewyr siartredig annibynnol.

Grŵp Colegau NPTC

Mae gwerth llyfr net offer ar gyfer y grŵp yn cynnwys swm o £1,162,000 (2021/22 – £1,392,000) mewn perthynas ag asedau a ddelir o dan brydlesi cyllid. Y tâl dibrisiant ar yr asedau hyn ar gyfer y grŵp am y flwyddyn oedd £206,000 (2021/22) – £178,000).

12 Buddsoddiadau (Coleg yn unig)

	Coleg	Coleg
	2023	2022
	<u>£'000</u>	<u>£'000</u>
Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau	<u>5,472</u>	5,472
Darpariaeth yn erbyn buddsoddiadau mewn is-gwmnïau	(939)	-
Cyfanswm	4,533	5,472

Mae gan y Coleg yr is-gwmnïau canlynol:

Enw	% perchnogaeth cyfranddaliadau cyffredin	Gwlad corffori	Prif weithgarwch
Language Specialists (International) Limited	100	DU	Hyfforddiant iaith Saesneg
Mentrau Cymunedol Cwm Gwendraeth Cyfyngedig	100	DU	Dysgu Seiliedig ar Waith
Parc Llandarcy Cyfyngedig	100	DU	Darpariaeth cyfleusterau chwaraeon
Green Inc (EU) Limited	100	DU	Dysgu Seiliedig ar Waith
Mentrau Coleg Castell-nedd Port Talbot Cyfyngedig	100	DU	Anfasnachol
Cycle Academy Wales Limited	100	DU	Anfasnachol

Buddsoddiad mewn Menter ar y Cyd (Grŵp yn unig)

	Grŵp	Grŵp
	2023	2022
	<u>£'000</u>	<u>£'000</u>
Buddsoddiadau mewn Mentrau ar y Cyd	10	10
Cyfanswm	10	10

Mae gan y Coleg y Mentrau ar y Cyd canlynol:

Enw	% Perchnogaeth	Gwlad corffori	Prif weithgarwch
JGR Educate LLP	50	DU	Recriwtio a hyfforddiant

13 Stoc

	Grŵp	Coleg	Grŵp	Coleg
	2023	2023	2022	2022
	<u>£'000</u>	<u>£'000</u>	<u>£'000</u>	<u>£'000</u>
Stoc fferm	363	363	340	340

Grŵp Colegau NPTC

Stoc eraill	10	-	10	-
Cyfan swm	373	363	350	340

Grŵp Colegau NPTC

14 Derbyniadau masnach a symiau derbyniadwy eraill

	Grŵp	Coleg	Grŵp	Coleg
	2023	2023	2022	2022
	£'000	£'000	£'000	£'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:				
Derbyniadau masnach	2,608	1,520	986	443
Symiau sy'n ddyledus gan weithgareddau'r grŵp:				
Ymgymeriadau is-gwmnïau	-	2,315	2	2,298
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	4,221	3,574	3,952	3,423
Ased treth ohiriedig	-	-	4	-
Cyfan swm	6,829	7,409	4,944	6,164

15 Symiau credydwy'r sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

	Grŵp	Coleg	Grŵp	Coleg
	2023	2023	2022	2022
	£'000	£'000	£'000	£'000
Benthyciadau banc a gorddrafftiau (Nodyn 17a)	1,198	1,178	416	407
Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid (Nodyn 17b)	236	73	346	153
Symiau masnach taladwy	4,017	3,428	1,927	1,492
Symiau sy'n ddyledus i weithgareddau'r grŵp:				
Ymgymeriadau is-gwmnïau	-	127	-	207
Trethiant arall a nawdd cymdeithasol	1,137	982	1,018	693
Treth gorfforaeth	-	-	6	-
Croniadau ac incwm gohiriedig	6,765	6,187	9,349	8,662
Croniad tâl gwyliau	894	885	725	710
Incwm gohiriedig - grantiau cyfalaf y llywodraeth	1,600	1,600	1,471	1,471
Cyfan swm	15,847	14,460	15,258	13,795

16 Symiau credydwy'r sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

	Grŵp	Coleg	Grŵp	Coleg
	2023	2023	2022	2022
	£'000	£'000	£'000	£'000
Benthyciadau banc (Nodyn 17a)	587	548	1,805	1,726
Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid (Nodyn 17b)	450	9	627	81
Incwm gohiriedig - grantiau cyfalaf y llywodraeth	13,933	13,694	14,035	13,765
Cyfan swm	14,970	14,251	16,467	15,572

Grŵp Colegau NPTC

17 Dyled yn aeddfedu

(a) Benthyciadau banc a gorddrafftiau

Mae benthyciadau banc a gorddrafftiau yn ad-daladwy fel a ganlyn:

	Grŵp 2023 £'000	Coleg 2023 £'000	Grŵp 2022 £'000	Coleg 2022 £'000
Mewn blwyddyn neu lai	1,198	1,178	416	407
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	189	169	416	407
Rhwng dwy a phum mlynedd	398	379	1,248	1,221
Mewn pum mlynedd neu fwy	-	-	141	98
Cyfan swm	1,785	1,726	2,221	2,133

Mae'r benthyciadau banc fel a ganlyn:

Banc	Swm '000	Cyfradd	Tymor
Lloyds TSB	717	4.096% sefydlog	16 mlynedd
Santander	1,010	4.880% sefydlog	16 mlynedd
Benthyciad Adfer Coronafeirws	29	2.50% sefydlog	6 blynedd
Benthyciad Adfer Coronafeirws	29	2.50% sefydlog	6 blynedd

Mae benthyciadau banc sy'n ad-daladwy mewn rhandaliadau sy'n dod yn ddyledus rhwng 1 Awst 2023 a 31 Hydref 2027, cyfanswm o £1,009,000, wedi'u gwarantu ar gyfran o dir ac adeiladau rhydd-ddaliadol y Coleg.

(b) Prydlesi cyllid

Y rhwymedigaethau prydles cyllid net y mae'r sefydliad wedi ymrwymo iddynt yw:

	Grŵp 2023 £'000	Coleg 2023 £'000	Grŵp 2022 £'000	Coleg 2022 £'000
Mewn blwyddyn neu lai	236	73	346	153
Rhwng dwy a phum mlynedd	450	9	627	81
Cyfan swm	686	82	973	234

Sicrheir rhwymedigaethau prydles ariannol ar yr asedau y maent yn berthnasol iddynt. Mae'r Grŵp wedi caffael asedau diriaethol o dan brydlesi cyllid o £Dim (2022: £1,215,000) yn ystod y flwyddyn.

18 Darpariaethau

	Rhwymedigaethau buddion diffiniedig £'000	Pensiynau uwch £'000	Cyfanswm y Coleg £'000	Trethiant Gohiriedig £'000	Cyfanswm y Grŵp £'000
Ar 1 Awst 2022	4,910	1,153	6,063	472	6,535
(Gwariant)/incwm yn y cyfnod	-	(200)	(200)	34	(166)
Symudiad yn y cyfnod	(18,280)	47	(18,233)	-	(18,233)

Grŵp Colegau NPTC

Ar 31 Gorffennaf 2023

(13,370)	1,000	(12,370)	506	(11,864)
-----------------	--------------	-----------------	------------	-----------------

Mae rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn ymwneud â'r rhwymedigaethau o dan aelodaeth y Coleg o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Rhoddir rhagor o fanylion yn Nodyn 22.

Grŵp Colegau NPTC

Mae'r ddarpariaeth pensiwn uwch yn ymwneud â chost staff sydd eisoes wedi gadael cyflogaeth y Coleg ac ymrwymadau ar gyfer costau ad-drefnu na all y Coleg yn rhesymol dynnu'n ôl ohonynt ar ddyddiad y fantolen. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i hailgyfrifo yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan y cyrff cyllido.

Y prif dybiaethau ar gyfer y cyfrifiad hwn yw:

	2023	2022
Chwyddiant prisiau	2.8%	2.9%
Cyfradd ddisgownt	5.0%	3.3%

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer trethiant gohiriedig yn ymwneud ag ailbriso asedau sefydlog yn yr is-gwmnïau.

19 Arian parod a chyfwerth ag arian parod (Grŵp)

	Ar 1 Awst 2022	Llif arian	Ar 31 Gorffennaf 2023
	£'000	£'000	£'000
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	10,636	(6,760)	3,876
Cyfan swm	10,636	(6,760)	3,876

20 Cyfalaf ac ymrwymadau eraill

	Grŵp 2023	Coleg 2023	Grŵp 2022	Coleg 2022
	£'000	£'000	£'000	£'000
Ymrwymadau cyfalaf ar 31 Gorffennaf	5,476	4,314	240	240

21 Rhwymedigaethau prydles

Ar 31 Gorffennaf roedd gan y Grŵp isafswm taliadau prydles o dan brydlesi gweithredol na ellir eu canslo fel a ganlyn:

	Grŵp 2023	Coleg 2023	Grŵp 2022	Coleg 2022
	£'000	£'000	£'000	£'000
Isafswm taliadau prydles sy'n ddyledus yn y dyfodol				
Tir ac adeiladau				
Heb fod yn hwyrach na blwyddyn	91	232	120	232
Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	-	1,018	91	988
Hwyrach na phum mlynedd	-	568	-	830
Cyfan swm	91	1,818	211	2,050

22 Rhwymedigaethau buddion diffiniedig

Mae cyflogaeth y Coleg yn perthyn i ddau brif gynllun budd-dal ôl-gyflogaeth: Cynllun Pensiwn Athrawon Cymru a Lloegr (CPA) ar gyfer staff academiaidd a chysylltiedig; a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) Dinas a Sir Abertawe ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu, a reolir gan Ddinas a Sir Abertawe. Mae'r ddau yn gynlluniau buddion diffiniedig aml-gyflogwr.

Grŵp Colegau NPTC

Cyfanswm cost pensiwn am y flwyddyn	2023	2022
	£'000	£'000
Cynllun Pensiwn Athrawon: cyfraniadau a dalwyd	3,418	2,932
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		
Cyfraniadau a dalwyd	2,380	2,130
Tâl FRS 102 (28)	890	3,670
Tâl ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr	3,270	5,800
Cynlluniau pensiwn eraill: Cyfraniadau a dalwyd	79	68
Credyd pensiwn uwch	47	144
	6,814	8,944
Cyfanswm y Gost Pensiwn am Flwyddyn o fewn costau staff (Nodyn 7)		

Asesir y costau pensiwn yn unol â chyngor actiwariaid cymwys annibynnol. Y prisiad actiwariaidd ffurfiol diweddaraf o'r CPA oedd 31 Mawrth 2016 a'r CPLIL oedd 31 Mawrth 2022.

Roedd cyfraniadau o £872,000 (2022: £638,000) yn daladwy i'r cynlluniau ar 31 Gorffennaf ac maent wedi'u cynnwys o fewn credydwyr.

Cynllun Pensiwn Athrawon

Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon (CPA) yn gynllun statudol, cyfrannol, â buddion wedi'u diffinio, a lywodraethir gan Reoliadau Cynllun Pensiwn Athrawon 2014. Mae'r rheoliadau hyn yn gymwys i athrawon mewn ysgolion a sefydliadau addysgol eraill, gan gynnwys colegau. Mae aelodaeth yn awtomatig i athrawon a darlithwyr mewn sefydliadau cymwys. Mae athrawon a darlithwyr yn gallu optio allan o'r CPA.

Mae'r CPA yn gynllun heb ei ariannu ac mae aelodau'n cyfrannu ar sail 'talwr wrth fynd' – mae'r cyfraniadau hyn, ynghyd â'r rhai a wneir gan gyflogwyr, yn cael eu credydu i'r Trysorlys o dan drefniadau a lywodraethir gan y Ddeddf uchod. Telir buddion ymdeol a buddion pensiwn eraill gan gronfeydd cyhoeddus a ddarperir gan y Senedd.

O dan y diffiniadau a nodir yn FRS 102 (28.11), mae'r CPA yn gynllun pensiwn aml-gyflogwr. Nid yw'r Coleg yn gallu nodi ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun.

Yn unol â hynny, mae'r Coleg wedi manteisio ar yr eithriad yn FRS 102 ac wedi rhoi cyfrif am ei gyfraniadau i'r cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae'r Coleg wedi nodi uchod y wybodaeth sydd ar gael ar y cynllun a'r goblygiadau i'r Coleg o ran y cyfraddau cyfrannu a ragwelir.

Cynhelir prisiad y CPA yn unol â rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Pensiwn y Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Mae prisiadau yn credydu cyfrif pensiwn yr athrawon gyda chyfradd enillion real gan dybio bod cronfeydd yn cael eu buddsoddi mewn buddsoddiadau tybiannol sy'n cynhyrchu'r gyfradd enillion wirioneddol honno.

Cynhaliwyd yr adolygiad actiwariaidd diweddaraf o'r CPA ar 31 Mawrth 2016. Cyhoeddwyd yr adroddiad prisio gan yr Adran Addysg (yr Adran ym mis Ebrill 2019). Nododd y prisiad gyfanswm rhwymedigaethau'r cynllun (pensiynau sy'n cael eu talu ar hyn o bryd ac amcangyfrif o gost buddion y dyfodol) ar gyfer gwasanaeth hyd at y dyddiad dod i rym o £218 biliwn, ac asedau tybiannol (cyfraniadau amcangyfrifedig yn y dyfodol ynghyd â'r buddsoddiadau tybiannol a ddelir ar y dyddiad prisio) o £198 biliwn yn rhoi diffyg tybiannol o £22 biliwn mewn gwasanaeth yn y gorffennol.

O ganlyniad i'r prisiad, gosodwyd cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr newydd ar 23.68% o dâl pensiynadwy o fis Medi 2019 ymlaen (o gymharu â 16.48% yn flaenorol).

Mae copi llawn o'r adroddiad prisio a'r dogfennau ategol i'w gweld ar wefan y Cynllun Pensiwn Athrawon. Cyfanswm y costau pensiwn a dalwyd i CPA yn y flwyddyn oedd £3,418,000 (2022: £2,932,000).

Grŵp Colegau NPTC

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae'r CPLIL yn gynllun buddion diffiniedig a ariennir, gyda'r asedau'n cael eu dal mewn cronfeydd ar wahân a weinyddir gan Ddinas a Sir Abertawe. Cyfanswm y cyfraniadau a wnaed ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023 oedd £3,110,000, gyda chyfanswm cyfraniadau'r cyflogwr yn £2,380,000 a chyfraniadau cyflogeion yn dod yn gyfanswm o £730,000. Y cyfraddau cyfrannu presennol yw 21.2% ar gyfer cyflogwyr ac maent yn amrywio o 5.5% i 12.5% ar gyfer cyflogeion, yn dibynnu ar gyflog.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn seiliedig ar brisiad actiwaraid llawn o'r gronfa ar 31 Mawrth 2022 wedi'i ddiweddarau i 31 Gorffennaf 2023 gan actiwari annibynnol cymwys.

	Ar 31 Gorffennaf af 2023	Ar 31 Gorffennaf af 2022
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau	4.1%	4.1%
Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol	2.6%	2.6%
Cyfradd ddisgownt ar gyfer rhwymedigaethau'r cynllun	5.0%	3.4%
Rhagdybiaeth chwyddiant (CPI)	2.6%	2.6%

Mae'r tybiaethau marwolaethau presennol yn cynnwys lwfans digonol ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol mewn cyfraddau marwolaethau. Y disgwyliadau oes tybiedig ar oedran ymddeol 65 yw:

	Ar 31 Gorffennaf 2023	Ar 31 Gorffennaf 2022
	Oed	Oed
<i>Yn ymddeol heddiw</i>		
Gwrywod	21.7	22.1
Benywod	24.2	24.2
<i>Ymddeol mewn 20 mlynedd</i>		
Gwrywod	22.3	23.2
Benywod	25.3	25.7

Cyfran y Coleg o'r asedau yn y cynllun ar ddyddiad y fantolen a'r cyfraddau enillion disgwyliedig oedd:

	Gwerth Teg ar 31 Gorffennaf 2023	Gwerth Teg ar 31 Gorffennaf 2022
	£'000	£'000
Offerynnau ecwiti	54,720	54,031
Offerynnau dyled	15,760	11,914
Eiddo	3,420	2,563
Arian parod	450	762
Cyfanswm gwerth teg asedau'r cynllun	74,350	69,270
Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	(60,980)	(74,180)
Gwarged/(rhwymedigaeth) pensiwn net (Nodyn 18)	13,370	(4,910)

Mae'r symiau a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr mewn perthynas â'r cynllun fel a ganlyn:

	2023 £'000	2022 £'000
Symiau wedi'u cynnwys mewn costau staff		
Cost gwasanaeth presennol	3,270	5,800
Cyfanswm	3,270	5,800
Symiau wedi'u cynnwys yn y gost llog		

Grŵp Colegau NPTC

Cost llog net

130	550
<u>3,400</u>	<u>6,350</u>

Grŵp Colegau NPTC

	2023	2022
	£'000	£'000
Swm a gydnabyddir mewn Incwm Cynhwysfawr Arall		
Elw ar asedau cynllun pensiwn	1,110	1,270
Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	18,190	31,490
Swm a gydnabyddir mewn Incwm Cynhwysfawr Arall	19,300	32,760
Rhwymedigaethau buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod	74,180	99,020
Cost gwasanaeth presennol	3,270	5,800
Cost llog	2,510	1,680
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y Cynllun	730	640
Newidiadau mewn tybiaethau ariannol	(18,190)	(31,490)
Amcangyfrif o'r buddion a dalwyd	(1,520)	(1,470)
Rhwymedigaethau buddion diffiniedig ar ddiwedd y cyfnod	60,980	74,180
Newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun		
Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod	69,270	65,570
Llog ar asedau'r cynllun	2,380	1,130
Elw ar asedau'r cynllun	1,110	1,270
Cyfraniadau cyflogwr	2,380	2,130
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y Cynllun	730	640
Amcangyfrif o'r buddion a dalwyd	(1,520)	(1,470)
Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddiwedd y cyfnod	74,350	69,270

23 Trafodion partïon cysylltiedig

	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf				Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf			
	2023 Incwm £'000	2023 Gwariant £'000	2023 Dyledwr £'000	2023 Credydwr £'000	2022 Incwm £'000	2022 Gwariant £'000	2022 Dyledwr £'000	2022 Credydwr £'000
Parti Cysylltiedig								
Cymuned Cwm Gwendraeth								
Mentrau Cyfyngedig	384	1,183	789	-	-	1,282	777	-
Parc Llandarcy								
Cyfyngedig	-	232	1,524	127	-	232	628	127
Language Specialists (International) Limited	-	-	-	-	-	-	900	1
Green Inc (EU) Limited	-	-	-	-	-	-	-	86
Mentrau Coleg Castell-nedd Port								
Talbot	-	-	2	-	-	-	-	-
Cyfyngedig								

Darparwyd ar gyfer balansau dyledwyr o £1.6m gyda Language Specialists (International) Limited a £0.4m gyda Green Inc (EU) Ltd yn llawn ar ddiwedd y flwyddyn.

Cyfanswm y treuliau a dalwyd i neu ar ran y Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn oedd £0, ar gyfer 1 Llywodraethwr (2022: £270; 1 Llywodraethwr). Mae hyn yn cynrychioli treuliau teithio a chynhaliadau a threuliau parod eraill yr aed iddynt wrth fynychu cyfarfodydd Llywodraethwyr a digwyddiadau elusennol yn rhinwedd eu swydd.

Nid oes unrhyw Lywodraethwr wedi derbyn unrhyw dâl na thaliadau wedi'u hepgor gan y Grŵp na'i is-gwmnïau yn ystod y flwyddyn (2022: Dim).

24 Symiau a dalwyd fel asiant**Cronfa Ariannol Wrth Gefn**

	2023	2022
	£'000	£'000
Balans ar ddechrau'r flwyddyn ariannol	11	46
Grantiau LIC a dderbyniwyd	607	552
	<u>618</u>	<u>598</u>
Wedi'i ddsbarthu i fyfyrwyr	(618)	(587)
Costau gweinyddol	-	-
Balans heb ei wario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol	<u>-</u>	<u>11</u>

Mae grantiau cronfa ariannol wrth gefn ar gael i fyfyrwyr yn unig. Ym mwyafrif yr achosion, mae'r Coleg yn gweithredu fel asiant talu yn unig. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'r grantiau a'r taliadau cysylltiedig wedi'u heithrio o'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

25 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ar ôl diwedd y flwyddyn, cwblhawyd cytundeb prynu cyfranddaliadau ar 28^{ain} Mawrth 2024 gyda Green Inc (EU) Limited yn cael ei werthu am £1.